# Cynllun Gwaith arfaethedig Ofcom 2020/21

Sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

---

**YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad Cyhoeddi: 7 Ionawr 2020

Dyddiad Cau ar gyfer derbyn Ymatebion: 25 Chwefror 2020

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg 1

2. Cyd-destun y farchnad 3

3. Ein nodau a’n blaenoriaethau ar gyfer 2020/21 7

4. Gwaith parhaus i gyflawni ein nodau a'n dyletswyddau 16

5. Cyflawni canlyniadau da i ddefnyddwyr ledled y DU 23

6. Sicrhau gwerth am arian 29


## Atodiad


A1. Beth rydym yn ei wneud 31

A2. Gwaith Prosiect ar gyfer 2020/21 33

A3. Ymateb i’r ymgynghoriad hwn 46

A4. Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori 49

A5. Dalen gyflwyno’r ymgynghoriad 50

# 1. Trosolwg

Mae’r ddogfen hon yn amlinellu **cynllun gwaith a blaenoriaethau arfaethedig Ofcom** ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Dros y flwyddyn sydd i ddod, rydym yn disgwyl y bydd defnyddio gwasanaethau ar-lein yn parhau i dyfu, fel technolegau cartref clyfar a cynnwys fideo ar-lein. Bydd hyn yn gwthio'r angen am fynediad cyflym a dibynadwy i'r rhyngrwyd. Mae’n debyg y bydd cyrhaeddiad ac ansawdd rhwydweithiau band eang a symudol yn parhau i wella, drwy gyfuniad o fuddsoddiadau masnachol a chefnogaeth gan y Llywodraeth. Mae Ofcom wedi ymrwymo i gefnogi gwelliannau ym maes cyfathrebu yn ogystal â chefnogi darlledu yn y DU, tegwch i gwsmeriaid a chynnal y gwasanaeth post cyffredinol.  Bydd ein gwaith yn adlewyrchu’r themâu hyn i gyd.

Bydd Cynllun Gwaith terfynol Ofcom, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020, yn ystyried ymatebion gan randdeiliaid i'r ddogfen hon.

## Ein blaenoriaethau strategol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf

- Gwasanaethau **band eang a symudol gwell – lle bynnag fyddwch chi:** byddwn yn cefnogi buddsoddiad parhaus mewn band eang cyflymach a darpariaeth symudol well ar hyd a lled y wlad.
- Tegwch **i gwsmeriaid**: byddwn yn sicrhau bod cwsmeriaid band eang, ffôn a theledu yn cael eu trin yn deg, yn enwedig pobl agored i niwed.
- **Cefnogi** darlledu **yn y DU:** byddwn yn cefnogi sectorau darlledu bywiog y DU, gan gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus, er mwyn darparu buddion parhaus i holl gynulleidfaoedd y DU.
- **Sicrhau bod cyfathrebiadau ar-lein yn gweithio i bobl ac i fusnesau:** byddwn yn gweithio gyda'r Llywodraeth ar bolisïau newydd a pholisïau sydd wrthi’n cael eu datblygu a fydd yn diogelu defnyddwyr rhag cynnwys niweidiol ar-lein, ac yn fwy cyffredinol, sicrhau bod gwasanaethau cyfathrebu ar-lein yn gweithio i ddefnyddwyr.
- **Galluogi rhwydweithiau cryf a diogel:** byddwn yn creu canolfan ragoriaeth ar gyfer diogelwch a chadernid, yn parhau i gydweithio â’r diwydiant i sicrhau bod rhwydweithiau’n cael eu diogelu rhag cyfnodau segur neu ymosodiadau seiber, ac yn arwain mentrau i gau’r bylchau mewn safonau ac o ran arferion gorau.

## Y meysydd dan sylw


- **Cynnal y gwasanaeth post cyffredinol:** byddwn yn sicrhau bod defnyddwyr y gwasanaeth post yn cael mynediad at wasanaeth cynaliadwy ac effeithlon.
- **Parhau i arloesi mewn rheoleiddio a data er mwyn helpu defnyddwyr a busnesau:** byddwn yn gwella ein galluoedd data er mwyn rheoleiddio’n well a chyflawni canlyniadau gwell i ddefnyddwyr. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid gan gynnwys rheoleiddwyr eraill wrth edrych ar ddulliau rheoleiddio newydd.
- **Cynyddu amrywiaeth a chynhwysiant**: byddwn yn cynyddu amrywiaeth a chynhwysiant yn Ofcom, ac yn herio darlledwyr i wneud yr un fath.
- **Cefnogaeth a chymorth drwy Brexit a chysylltiadau rhyngwladol parhaus:** byddwn yn cefnogi defnyddwyr a’r diwydiant drwy newidiadau yng nghysylltiadau rhyngwladol y DU.

# 2. Cyd-destun y farchnad

## Mae defnyddwyr y DU yn treulio mwy o amser ar-lein, sy'n golygu bod angen mwy o gysylltedd

2.1 Mae cyfathrebiadau yn ganolog i sut mae defnyddwyr yn rhyngweithio â busnesau ac â'i gilydd. Mae naw unigolyn o bob deg ar-lein nawr, gan dreulio 3 awr 15 munud ar-lein bob dydd ar gyfartaledd – 11 munud yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol.[1] Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr y DU 'wedi cysylltu drwy'r amser', gan ddefnyddio tua chwarter yn fwy o ddata nag yn 2018, gyda 315GB yn cael eu defnyddio bob mis ar gyfartaledd fesul cysylltiad band eang sefydlog.[2]

2.2 Er mwyn dal i fyny â'r galw a darparu gwasanaeth sy'n fwy dibynadwy a diogel, mae darparwyr cyfathrebiadau'r DU yn buddsoddi mewn rhwydweithiau gwell ac yn defnyddio technolegau newydd. Mae argaeledd band eang ffeibr-llawn yn y DU wedi codi i 3 miliwn eiddo (oddeutu 10% o eiddo, dros 1.5 miliwn yn fwy o eiddo na'r llynedd).[3] Mae hyn o ganlyniad i gynlluniau i gyflwyno ffeibr, gan gynnwys Openreach sy'n ceisio cyrraedd 4 miliwn eiddo erbyn mis Mawrth 2021, Virgin Media sy'n parhau i gyflwyno ffeibr drwy Project Lightning, a nifer o adeiladwyr rhwydweithiau newydd sy'n dechrau defnyddio'r rheoliadau mynediad gwell i bolion a phibellau er mwyn cyflwyno ffeibr llawn yn gystadleuol ledled y DU.




2.3 Rydym yn amcangyfrif bod cyn lleied â 155,000 o gartrefi a busnesau yn methu cael band eang teilwng. Mae'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol (USO) band eang newydd yn

---

[1] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0024/149253/online-nation-summary.pdf tudalen 2
[2] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0023/186413/Connected-Nations-2019-UK-final.pdf
[3] https://www.ofcom.org.uk/cymru/research-and-data/multi-sector-research/infrastructure-research/connected-nations-update-summer-2019 tudalen 3

cael ei lansio ym mis Mawrth 2020 (yn amodol ar feini prawf cymhwyso). Bydd y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol band eang yn sicrhau bod rhagor o bobl yn gallu elwa o fand eang teilwng.[4]

2.4 Roedd pedwar darparwr symudol y DU wedi lansio eu gwasanaethau 5G eleni, a oedd yn golygu mai'r DU oedd un o'r gwledydd cyntaf yn Ewrop lle mae defnyddwyr yn gallu defnyddio 5G. Mae 5G ar gael mewn dros 40 o ddinasoedd yn y DU erbyn hyn ac mae ar gael ar naw math o ffôn symudol a bydd rhagor o ddinasoedd a ffonau symudol yn cael eu lansio yn 2020. Mae gan 66% o'r DU ddarpariaeth symudol 4G gan y pedwar gweithredwr symudol, gyda 91% yn cael darpariaeth 4G gan o leiaf un cwmni.[5] Ym mis Hydref 2019, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gefnogaeth mewn egwyddor i 'Rwydwaith Gwledig a Rennir' arfaethedig gweithredwyr y rhwydwaith symudol. Os ceir cytundeb terfynol rhwng y Llywodraeth a'r diwydiant, bydd y gweithredwyr yn rhannu seilwaith newydd a seilwaith sydd eisoes yn bodoli er mwyn gwella'r ddarpariaeth mewn ardaloedd gwledig.

2.5 Mae'r cynnydd mewn buddsoddiad wedi helpu i gefnogi'r newid parhaus yn y ffordd y mae dinasyddion y DU yn cyfathrebu. Maent yn symud i ffwrdd o ddulliau traddodiadol, fel negeseuon testun SMS a theledu darlledu, a thuag at wasanaethau drwy fand eang sy'n defnyddio'r rhyngrwyd. Hefyd, mae'r gwasanaethau hyn nawr yn cael eu cyflwyno i fwy a mwy o ddyfeisiau sydd wedi'u cysylltu gan gynnwys seinyddion clyfar a thechnolegau mae modd eu gwisgo, ac mae oddeutu un person o bob pump nawr yn berchen ar y ddau ohonynt.[6]

2.6 Mae'r ddibyniaeth gynyddol ar wasanaethau cyfathrebu yn golygu ei bod hi'n hanfodol bod rhwydweithiau'n ddibynadwy ac yn ddiogel. Mae cwmnïau cyfathrebiadau'n parhau i sicrhau bod eu rhwydweithiau'n gryf, yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn yn wyneb risgiau o gyfnodau segur ac ymosodiadau seiber. Mae adolygiad o'r gadwyn gyflenwi a gwblhawyd yn ddiweddar gan y Llywodraeth wedi rhoi mwy o eglurder i'r diwydiant telegyfathrebiadau ynghylch sut bydd diogelwch telegyfathrebiadau'r DU yn cael ei gynnal yn y dyfodol.

## Wrth i fwy a mwy o gynnwys gael ei weld a'i rannu ar-lein, mae darlledwyr traddodiadol yn addasu i'r newid yn yr amgylchedd

2.7 Mae gan ddefnyddwyr yn y DU fwy o ddewis nawr o ran y cynnwys maent yn ei ddefnyddio, yn ogystal â sut maen nhw'n cael gafael ar eu cynnwys. Mae'r twf mewn chwaraewyr cyfryngau ar-lein a'r nifer sydd â ffonau clyfar a setiau teledu cysylltiedig

---

[4] Ar gyfer y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol band eang, mae'r Llywodraeth wedi diffinio band eang teilwng fel gwasanaeth sy'n gallu darparu cyflymder llwytho i lawr o 10 Mbit yr eiliad, a chyflymder llwytho i fyny o 1 Mbit yr eiliad. Mae nodweddion technegol eraill sy'n sicrhau gwasanaeth o ansawdd.
[5] https://www.ofcom.org.uk/cymru/research-and-data/multi-sector-research/infrastructure-research/connected-nations-update-summer-2019 tudalen 7
[6] https://www.ofcom.org.uk/research-and-data/multi-sector-research/cmr/interactive-data tudalen 3

wedi'i gwneud yn haws i ddefnyddwyr yn y DU gael mynediad at gynnwys lle a phan fydd hynny'n hwylus iddyn nhw.

2.8 Mae cynnwys sy'n cael ei ddarlledu yn dal yn cynrychioli'r rhan fwyaf (69%) o wylio fideo bob dydd ymhlith defnyddwyr yn y DU, er bod hyn yn disgyn ymhlith rhai grwpiau a'u bod yn gwylio ar-lein yn lle hynny. Mae'r newid hwn yn fwy amlwg ymysg gwylwyr iau a chaiff ei ysgogi'n bennaf gan YouTube a deunydd gwylio fideos tanysgrifio: dim ond 42% o'u hamser gwylio mae pobl ifanc rhwng 16 a 34 yn ei dreulio ag gynnwys gan ddarlledwyr.[7]

2.9 Mae 60% o ddefnyddwyr yn y DU nawr yn gwylio o leiaf un gwasanaeth fideo ar-lein (drwy wasanaeth tanysgrifio neu ffrydio dal i fyny). Mae gwylio gwasanaethau ffrydio drwy danysgrifio wedi cynyddu 7 munud i 26 munud y diwrnod.[8] Mae darlledwyr wedi ymateb i newidiadau yn ymddygiad defnyddwyr, gan lansio eu gwasanaethau fideo ar-lein eu hunain fel Disney+ a Britbox a drwy gynyddu'r cynnwys sydd ar gael ar eu llwyfannau ar-lein fel iPlayer ac All4.

2.10 Er bod y dull gwylio wedi newid, mae gwariant y rhwydwaith DGC ar gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf wedi aros yn gymharol sefydlog yn 2018, sef £2.586bn, ac roedd cyllid trydydd parti ar gyfer rhaglenni darlledu gwasanaeth ar ei uchaf erioed, sef £455m. Mae DGC yn ffurfio partneriaethau â chynhyrchwyr eraill i gynyddu buddsoddiad mewn rhaglenni, gan gyfrannu at y gwariant uchaf ar raglenni gwreiddiol o'r DU ers 2010, sef £3bn.[9]

2.11 Mae radio byw yn dal yn boblogaidd ac yn cynrychioli 73% o gyfanswm y gwrando ar radio. Mae gwrando digidol yn y DU yn dal i dyfu, sef 57% o'r gwrando cyffredinol. Gwrando ar-lein sy'n tyfu gyflymach, gan weld 30% o dwf o un flwyddyn i'r llall o'i gymharu ag 1% ar gyfer DAB. Fodd bynnag, mae DAB yn cynrychioli'r gyfran fwyaf o'r holl wrando sef 40% o'i gymharu ag 13% ar gyfer ar-lein.[10] Mae'r cynnydd yn y nifer sy'n gwrando ar-lein o ganlyniad yn rhannol i'r defnydd cynyddol o seinyddion clyfar, a oedd wedi tyfu 20% rhwng Ch1 2018 a Ch1 2019. Mae llwyfannau digidol wedi helpu i ymestyn cyrhaeddiad radio masnachol ledled y DU, sydd erbyn hyn yn cyrraedd pedwar oedolyn o bob deg yn y DU. Fodd bynnag, mae defnyddwyr yn y DU yn treulio mwy o amser yn gwrando ar wasanaethau ffrydio cerddoriaeth, sy'n cyflwyno her i'r diwydiant radio yn y dyfodol.

## Mae Ofcom a'r diwydiant yn gwneud mwy i ddiogelu defnyddwyr

2.12 Mae Ofcom wedi cymryd camau i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael eu trin yn deg, ac yn parhau i herio cwmnïau i wneud mwy. Rydym yn croesawu'r disgowntiau y mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr gwasanaethau symudol y DU yn eu cynnig yn wirfoddol i gwsmeriaid sydd y tu allan i gontract mewn cytundebau wedi'u bwndelu. Rydym hefyd yn croesawu ymrwymiadau newydd penodol gan gwmnïau band eang mwyaf y DU i ddiogelu cwsmeriaid sy'n wynebu rhwystrau rhag cael cytundebau gwell. Mae Ofcom hefyd wedi

---

[7] https://www.ofcom.org.uk/research-and-data/tv-radio-and-on-demand/media-nations-2019 tudalen 5
[8] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0019/160714/media-nations-2019-uk-report.pdf tudalen 4
[9] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0019/160714/media-nations-2019-uk-report.pdf tudalen 49
[10] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0019/160714/media-nations-2019-uk-report.pdf tudalen 83

cyflwyno iawndal awtomatig i gwsmeriaid sy'n aros yn rhy hir am atgyweiriadau band eang neu linell dir ac er mwyn gosod gwasanaethau, ac mae taliadau iawndal ar gyfer methiannau ansawdd gwasanaeth allweddol wedi dechrau. Mae modd gwneud mwy i drin cwsmeriaid yn well, yn enwedig cwsmeriaid sy'n agored i niwed. Mae Ofcom a chwmnïau cyfathrebu wedi dechrau gweithio gyda'i gilydd i ganfod ac i gefnogi'r cwsmeriaid hyn.

2.13 Mae angen amlwg i wella sut mae defnyddwyr yn cael eu diogelu ar-lein. Er bod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr y rhyngrwyd (59%) yn cytuno bod manteision mynd ar-lein yn fwy na'r risgiau, mae gan nifer hefyd bryderon ynghylch bod ar-lein.[11] Mae llawer o'r pryder hwn yn ymwneud â phlant, yn benodol ynghylch y mathau o gynnwys ac ymddygiad mae modd iddynt eu gweld ar-lein. Yn gyffredinol, dywed 61% o oedolion a 79% o blant 12-15 oed sy'n defnyddio'r rhyngrwyd eu bod wedi cael o leiaf un profiad ar-lein a allai fod yn niweidiol yn ystod y 12 mis diwethaf. Y pryder a oedd yn cael ei godi amlaf gan oedolion a phlant 12-15 oed oedd bod plant yn gallu dod ar draws bwlio, bygythiadau neu ymddygiad camdriniol.

## Mae danfon parseli'n parhau i dyfu wrth i nifer y llythyrau sy'n cael eu hanfon gwympo

2.14 Mae nifer y llythyrau sy'n cael eu hanfon drwy'r post yn gostwng mwy a mwy, gan ddisgyn 8% i 10.2 biliwn eitem yn 2018/19. Mae hyn yn cymharu â 5% o ostyngiad yn y flwyddyn flaenorol. Mae nifer y parseli yn parhau i dyfu, ac mae bellach wedi cyrraedd cyfanswm o 2.5 biliwn eitem. Daw'r newidiadau hyn o ganlyniad i e-fasnach gan mwyaf ac oherwydd bod cyfathrebu ar-lein wedi cymryd lle llythyrau. Dywedodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod gwerthu ar y rhyngrwyd wedi cynrychioli 18.0% o holl adwerthu'r DU yn 2018. Mae'r cynnydd yma mewn e-fasnach wedi cynyddu'r refeniw parseli i dros £10 biliwn yn 2018/19.[12] Mewn ymateb i'r newid yma mae cwmnïau danfon yn y DU yn buddsoddi mewn rhwydweithiau parseli; mae DHL wedi cyhoeddi buddsoddiad mawr yn ei fflyd; mae Amazon wedi cyhoeddi cynlluniau i agor canolfan gyflenwi arall yn Chesterfield; ac mae'r Post Brenhinol wedi ymateb drwy ei strategaeth i fuddsoddi yn ei rwydwaith parseli, gyda'r nod o gynyddu ei gyfran o'r farchnad parseli ac er mwyn prosesu parseli mwy yn fwy effeithlon.

[11] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0028/149068/online-harms-chart-pack.pdf tudalen 72
[12] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/file/0031/177286/2018-19-post-data.csv

# 3. Ein nodau a'n blaenoriaethau ar gyfer 2020/21

3.1 Mae ein meysydd gwaith blaenoriaeth ar gyfer 2020/21 wedi cael eu datblygu yn unol â chyd-destun y farchnad berthnasol a'n dyletswyddau. Rydym yn nodi'r meysydd gwaith blaenoriaeth isod, gan gynnwys manylion a cherrig milltir pwysig y prosiectau mwyaf perthnasol. Mae Atodiad 2 yn cynnwys ein cynllun gwaith ehangach gan gynnwys y meysydd gwaith hyn a amlygir.

3.2 Mae'r Llywodraeth wedi gosod ei blaenoriaethau polisi mewn perthynas â thelegyfathrebiadau, rheoli sbectrwm radio a gwasanaethau post yn y Datganiad Blaenoriaethau Strategol ("SSP")[13].

3.3 Mae'n rhaid i Ofcom ystyried y Datganiad Blaenoriaethau Strategol wrth arfer ei swyddogaethau rheoleiddio. Rydym wedi cyhoeddi ein hymateb sy'n nodi sut rydym yn bwriadu gwneud hynny yma. Rydym wedi ystyried y Datganiad Blaenoriaethau Strategol wrth ddatblygu'r Cynllun Gwaith hwn, fel sy'n cael ei grynhoi isod:

- **Seilwaith digidol o'r radd flaenaf**. Rydym yn cyflawni ystod o waith dan y thema *"Gwasanaethau band eang a symudol gwell – lle bynnag fyddwch chi".* Bwriad hyn yw hybu cystadleuaeth a buddsoddiad mewn rhwydweithiau newydd a defnyddio sbectrwm er budd pobl a busnesau. Rydym yn rhannu ymrwymiad y Llywodraeth i seilwaith digidol o'r radd flaenaf ar gyfer y DU, ac mae ein gwaith yn ystyried casgliadau'r Adolygiad o'r Seilwaith Telegyfathrebiadau i'r Dyfodol.
- **Hyrwyddo buddiannau defnyddwyr telegyfathrebiadau.** Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i ddiogelu buddiannau defnyddwyr, gan gynnwys y rheini sy'n agored i niwed a'r rheini nad ydynt yn ymgysylltu cymaint. Mae ein gwaith ar sicrhau *"Tegwch i Gwsmeriaid"* gan gynnwys newid, prisiau, a defnyddio data defnyddwyr yn cefnogi'r canlyniadau hyn yn uniongyrchol.
- **Seilwaith telathrebu diogel a gwydn.** Mae ein rhaglen waith ar *'Galluogi rhwydweithiau cadarn a diogel'* yn cefnogi ymrwymiad y Llywodraeth yn uniongyrchol i sicrhau bod rhwydweithiau a gwasanaethau telegyfathrebu'r DU yn ddiogel ac yn wydn.
- **Gwasanaethau post.** Mae ein gwaith parhaus yn *"Cynnal y gwasanaeth post cyffredinol"*, yn cynnwys deall anghenion defnyddwyr y post ac adolygu sut caiff y gwasanaeth post ei reoleiddio. Rydym yn ystyried blaenoriaethau'r Llywodraeth yn y maes hwn, gan gynnwys yr angen i'r diwydiant ac Ofcom gydweithio i sicrhau cynaliadwyedd tymor hir y sector.

13 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/779226/SSP_Consultation_-_Publication_Version__2_.pdf

# Blaenoriaethau strategol

## Darpariaeth band eang a symudol gwell – lle bynnag fyddwch chi

3.4 Mae hi'n dod yn fwyfwy hanfodol i nifer o bobl a busnesau yn y DU fod â mynediad at wasanaethau symudol a band eang. Mae arnom eisiau sicrhau bod pawb yn gallu cael gafael ar wasanaethau symudol a band eang cyflym a dibynadwy, ni waeth ble maent yn byw, yn gweithio ac yn teithio.

3.5 Rydym yn sefydlu fframwaith rheoleiddio a fydd yn cefnogi buddsoddiad gan amrywiaeth o ddarparwyr ac yn hybu cystadleuaeth rhwydwaith. Byddwn yn gweithio law yn llaw gyda'r Llywodraeth ganolog a Llywodraethau datganoledig er mwyn rhoi sylw i ardaloedd sy'n dal â chysylltiad gwael.

3.6 O ran gwasanaeth symudol, mae'r holl weithredwyr wedi lansio technoleg 5G newydd. Byddwn yn parhau i hwyluso lansio a datblygu'r gwasanaethau hyn ac yn ymgysylltu â'r diwydiant a defnyddwyr symudol, i sicrhau eu bod yn cael digon o wybodaeth am fanteision 5G.

3.7 Yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, bydd ein gwaith yn cynnwys:

- **Annog buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffeibr**. Byddwn yn cwblhau ein hadolygiad o'r farchnad mynediad sefydlog telegyfathrebiadau cyfanwerthol, gan bennu'r rheoleiddio ar gyfer Ebrill 2021 i 2026. Bydd yr adolygiad hwn yn cefnogi buddsoddiad a chystadleuaeth mewn gwasanaethau sy'n gallu delio â gigabits, gan sicrhau bod gwasanaethau band eang o'r radd flaenaf ar gael i gynifer o bobl a busnesau â phosibl.
- **Darparu gwasanaethau band eang ar raddfa gyffredinol.** Byddwn yn gweithredu'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol band eang i sicrhau bod mwy o ddefnyddwyr yn y lleoliadau mwyaf anghysbell ac anoddaf eu cyrraedd yn gallu cael gafael ar gyfathrebiadau band eang teilwng.
- **Helpu i wella darpariaeth symudol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.** Roeddem eisoes wedi ymgynghori ar gynnwys dwy rwymedigaeth darpariaeth symudol yn ein harwerthiant sbectrwm nesaf. Ers hynny, mae'r diwydiant wedi ymateb drwy ddatblygu ei gynigion ei hun ar gyfer 'Rhwydwaith Gwledig a Rennir' a fyddai'n gweld pob un o'r pedwar gweithredwr yn ymrwymo i ddarparu darpariaeth o safon uchel yn gyfnewid am hyd at £500 miliwn o gyllid gan Lywodraeth y DU ac arwerthiant heb ddyletswyddau darparu. Byddwn yn parhau i gefnogi'r Llywodraeth gyda chyngor technegol er mwyn dod i gytundeb ynghylch y cynigion hyn ac, os llwyddir i gael cytundeb terfynol, i adrodd yn rheolaidd ar gynnydd y gweithredwyr tuag at gwrdd â'u hymrwymiadau darparu.
- **Gwella'r cyfleoedd i rannu sbectrwm.** Rydym wedi sefydlu proses i alluogi cwmnïau, cymunedau neu sefydliadau i fanteisio ar y sbectrwm symudol trwyddedig nad yw'n cael ei ddefnyddio. Byddwn yn archwilio sut gallwn ni gefnogi arloesedd drwy ddull gweithredu awdurdodi sydd wedi'i awtomateiddio'n llawn. Bydd y dulliau hyn yn caniatáu mwy o arloesi a darparu gwasanaethau di-wifr.

- **Hwyluso lansio gwasanaethau symudol newydd i ddefnyddwyr ac i'r diwydiant, gan gynnwys 5G.** Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, rydym yn bwriadu dyfarnu mwy o sbectrwm ar gyfer gwasanaethau 5G (700 MHz a 3.6-3.8 GHz) a monitro lansio a datblygu gwasanaethau mynediad di-wifr sefydlog (FWA) a 5G. Rydym hefyd yn bwriadu cynyddu'r mynediad i sbectrwm sydd wedi'i eithrio o drwydded i hybu arloesedd mewn gwasanaethau newydd, gan gynnwys ar gyfer defnydd diwydiannol newydd, megis awtomeiddio. Er enghraifft, byddwn yn ymgynghori ynghylch rhyddhau sbectrwm rhwng 100-200 GHz. Rydym yn parhau i alluogi treialon drwy ein trwyddedau Arloesi a Phrawf. Byddwn hefyd yn cyfrannu at drafodaethau ynghylch diogelwch rhwydwaith ar gyfer 5G er mwyn sicrhau rhwydweithiau symudol diogel a gwydn.

## Tegwch i gwsmeriaid

3.8 Mae cwsmeriaid yn disgwyl cael eu trin yn deg ac mae tegwch yn flaenoriaeth i Ofcom. Dylai cwsmeriaid fod yn hyderus bod tegwch yn rhan ganolog o ddiwylliant eu darparwyr. Gwnaethom gynnydd sylweddol tuag at y nod hwn ym mis Mehefin 2019 pan ymrwymodd yr holl brif gwmnïau band eang, ffôn a theledu drwy dalu i'n Hymrwymiadau Tegwch i Gwsmeriaid newydd.

3.9 Disgwyliwn i ddarparwyr drin cwsmeriaid, a chwsmeriaid agored i niwed yn benodol, yn deg a sicrhau bod tegwch yn ganolog i'w diwylliant corfforaethol. Byddwn yn monitro effaith yr ymrwymiadau gwirfoddol mae darparwyr wedi'u gwneud fel rhan o'n hadolygiadau o brisiau gwasanaethau symudol a band eang. Hefyd, byddwn yn dechrau gwaith newydd er mwyn ei gwneud yn haws i gwsmeriaid gael bargen deg. Bydd hyn yn cynnwys:

- **Rhoi tegwch wrth galon busnesau'r darparwyr.** Byddwn yn cyhoeddi adroddiad cynnydd ar yr Ymrwymiadau Tegwch, gan adolygu a ydy cwmnïau'n cyflawni'r hyn maent wedi'i addo.
- **Helpu rhagor o gwsmeriaid i gael bargeinion da ar gyfer band eang.** Byddwn yn parhau i gymryd camau i gyflwyno tariff cymdeithasol, a byddwn yn gweithio gyda'r Llywodraeth i ystyried sut y gellid gweithredu tariff o'r fath. Byddwn yn ystyried yr achos dros dreial i newid cyflenwr ar y cyd a fydd wedi'i lunio i helpu'r cwsmeriaid sy'n ymgysylltu lleiaf, gan gynnwys cwsmeriaid agored i niwed.
- **Gwneud i ddata weithio i ddefnyddwyr.** Byddwn yn datblygu cynigion ar gyfer cynllun Cyfathrebu Agored: byddai hyn yn gadael i gwsmeriaid rannu data a gedwir gan eu darparwr (fel eu tariff a'u defnydd data) gyda thrydydd partïon, fel adnoddau cymharu digidol, i helpu pobl i lywio eu ffordd drwy'r farchnad a chael bargen well. Byddwn yn cyhoeddi dogfen drafod ar brisiau personol, ac yn monitro'r defnydd a wneir o ddata ac algorithmau sy'n cefnogi'r arferion hyn.

3.10 Byddwn hefyd yn parhau i weithio ar:

- **Diogelu hawliau defnyddwyr a helpu defnyddwyr i newid.** Byddwn yn cadarnhau ein cynlluniau ar gyfer gweithredu adran hawliau defnyddwyr y Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd. Rydym wedi gosod newidiadau arfaethedig i'n rheolau

rheoleiddio, gan gynnwys rheolau newydd ar newid rhifau a chludo rhifau, cloi ffonau, hygyrchedd i gwsmeriaid anabl a gwybodaeth i ddefnyddwyr. Rydym yn bwriadu cyhoeddi datganiad yn Ch1.

- **Helpu cwsmeriaid â ffioedd am y ffonau symudol eu hunain** Rydym yn parhau i weithio i sicrhau prisiau tecach a mwy tryloyw i gwsmeriaid sy'n prynu contractau ffôn symudol. Byddwn yn cwblhau ein hymgynghoriad a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2019 i gyfyngu contractau am y ffonau symudol eu hunain i 24 mis a fydd yn cael eu gwerthu gyda dolen i gontract amser sgwrsio ffôn symudol. A byddwn yn ystyried beth sydd ei angen i sicrhau nad yw cwsmeriaid yn rhwym wrth gontractau rhy hir.

## Cefnogi darlledu yn y DU

3.11 Byddwn yn cefnogi sector darlledu bywiog y DU i sicrhau manteision i holl gynulleidfaoedd y DU. Mae hyn yn cynnwys ein gwaith i sicrhau bod gwylwyr a gwrandawyr yn cael eu hamddiffyn rhag casineb a chynnwys arall nad yw'n bodloni safonau'r Cod Darlledu. Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, yn benodol, yn gonglfaen i gyfryngau'r DU. Maent yn ffynhonnell ddibynadwy o newyddion a materion cyfoes ac mae disgwyl iddynt gynhyrchu cynnwys teledu o ansawdd uchel sy'n apelio at amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd a chwaethau. Mae gan Ofcom ddyletswydd i fonitro perfformiad y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gan sicrhau bod pob un yn cyflawni ei gylch gwaith. Gallwn hefyd wneud argymhellion i'r Llywodraeth i gynnal ac i gryfhau'r system.

3.12 Yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, byddwn yn ymgymryd ag amrywiaeth o waith i sicrhau bod y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn addas ar gyfer y dyfodol. Byddwn hefyd yn parhau i adolygu perfformiad y BBC yn flynyddol er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus, a'i fod yn diwallu'r gofynion sydd wedi'u nodi yn nhrwydded weithredu a fframwaith gweithredu'r BBC. Pan fydd hynny'n briodol, byddwn yn cynnal asesiadau cystadleuaeth ar gynlluniau datblygu'r BBC.

3.13 Yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, bydd ein gwaith yn cynnwys:

- **Ystyried dyfodol y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus.** Fel y nodir yn adolygiad perfformiad y BBC eleni, byddwn yn parhau â'n rhaglen eang i ystyried rôl darlledu gwasanaeth cyhoeddus mewn tirwedd cyfryngau sy'n newid yn gyflym drwy hwyluso 'Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr' gyda'r diwydiant, Llywodraeth, y Senedd Brydeinig, gwylwyr a gwrandawyr. Byddwn yn adeiladu ar ein hasesiad o berfformiad darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus dros 2014-2018, gan ystyried yr hyn y mae ar gynulleidfaoedd ei eisiau gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus dros y 5-10 mlynedd nesaf a beth sy'n gynaliadwy. Bydd ymgysylltu â'r cyhoedd, y diwydiant a rhanddeiliaid wrth galon y gwaith yma. Byddwn yn ymgynghori ar sut gellid cryfhau'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus cyn cyflwyno argymhellion i'r Llywodraeth.
- **Adolygu esblygiad BBC Studios.** Byddwn yn cwblhau ein hadolygiad o BBC Studios, gan gynnwys sut mae'r BBC wedi gweithredu ein gofynion Masnachu a Gwahanu. Bydd hyn yn seiliedig ar faterion a godir gan randdeiliaid ac ar wybodaeth a gesglir o dan ein rhaglen fonitro. Rydym yn disgwyl cyhoeddi canfyddiadau ein hadolygiad ddiwedd 2020.

- **Herio'r diwydiant darlledu i wella amrywiaeth.** Mae amrywiaeth ym maes darlledu yn dal yn hanfodol er mwyn sicrhau gwerth ehangach i gynulleidfaoedd y DU. Mae gennym fentrau yn ein maes ffocws amrywiaeth a chynhwysiant, sy'n ymwneud â theledu a radio yn gyffredinol, ac yn benodol mewn perthynas â'r BBC.

## Sicrhau bod cyfathrebiadau ar-lein yn gweithio i ddefnyddwyr a busnesau

3.14 Mae twf parhaus y byd ar-lein wedi creu cyfoeth o gyfleoedd ochr yn ochr ag amrywiaeth o niweidiau posibl. Gan adeiladu ar ein gwaith hyd yn hyn, byddwn yn parhau i wella ein dealltwriaeth o'r niweidiau hyn a'r camau y gallem eu cymryd i helpu i roi sylw iddynt:

- **Cyfrannu at y ddadl polisi ar-lein**. Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein profiad a'n harbenigedd i gyfrannu at y drafodaeth ynghylch dyfodol rheoleiddio ar-lein, drwy ein hymgysylltiad parhaus â'r Llywodraeth a phartneriaid eraill. Byddwn hefyd yn cyhoeddi ystod o ymchwil sy'n seiliedig ar farchnadoedd i feithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r ffordd gymhleth mae marchnadoedd ar-lein yn effeithio ar fywydau pobl.
- **Helpu defnyddwyr rhyngrwyd i ddeall gwasanaethau ar-lein ac amddiffyn eu hunain rhag niwed ar-lein**. Fel rhan o'n rhaglen ehangach Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau, byddwn yn defnyddio ein rhaglen ymchwil a'n rhwydwaith o sefydliadau partner i helpu defnyddwyr i ddeall gwasanaethau ar-lein a'u galluogi i ddiogelu eu hunain. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda phlant a phobl ifanc er mwyn deall sut gallwn gefnogi'r nod o wella gallu plant i gael budd o wasanaethau ar-lein ar yr un pryd â rheoli'r risgiau.
- **Sicrhau bod Llwyfannau Rhannu Fideoyn cymryd mesurau priodol i ddiogelu defnyddwyr.** Yn dilyn ymgynghoriad y Llywodraeth yn gynharach eleni, ar weithredu Cyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol Ewrop, mae Ofcom yn paratoi i ysgwyddo dyletswyddau newydd i reoleiddio cwmnïau rhannu fideos sydd wedi eu lleoli yn y DU (fel Snapchat a TikTok). Os cawn ein cadarnhau fel rheoleiddiwr byddwn yn datblygu ac yn ymgynghori ynghylch fframwaith rheoleiddio i sicrhau bod y cwmnïau hyn yn cymryd mesurau priodol er mwyn: diogelu plant rhag cynnwys niweidiol; diogelu'r cyhoedd rhag cynnwys anghyfreithlon a chynnwys sy'n ysgogi trais neu gasineb: a pharchu dyletswyddau penodol sy'n ymwneud â chyfathrebiadau masnachol.
- **Deall dulliau newydd o reoleiddio Gwasanaethau Cyfathrebu Rhyngbersonol sy'n Annibynnol ar Rifau (NIICS).** Ar ôl gweithredu'r Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd (EECC), mae ystod o wasanaethau cyfathrebu ar-lein, fel gwasanaethau negeseuon ac e-bost, o fewn cwmpas rheoleiddio cyfathrebiadau. Byddwn yn archwilio beth yw'r gwasanaethau hyn, sut mae defnyddwyr yn eu defnyddio a pha fathau o reoleiddio allai fod yn angenrheidiol.

## Galluogi rhwydweithiau cryf a diogel

3.15 Mae'n hanfodol sicrhau diogelwch rhwydweithiau cyfathrebu'r DU. Byddwn yn datblygu canolfan ragoriaeth ar gyfer diogelwch a gwytnwch, yn parhau i ddatblygu ein gallu seiberddiogelwch ac yn gweithio gyda darparwyr cyfathrebiadau. Bydd hyn yn helpu i

sicrhau bod rhwydweithiau'n gadarn ac yn ddiogel ac yn cael eu diogelu rhag cyfnodau segur neu ymosodiadau seiber.

3.16 Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r Llywodraeth, y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol a'r diwydiant i fonitro'r risgiau posibl ac i ddarparu cyngor ac arweiniad pan fo'n bosibl. Yn ogystal â chyflawni ein hymrwymiadau presennol, byddwn yn:

- Gweithio gyda'r Llywodraeth i weithredu canlyniadau'r Adolygiad o'r Gadwyn Gyflenwi Telegyfathrebiadau, gan weithio'n agos gyda'r diwydiant, gan gynnwys cyflenwyr i sicrhau bod y rhwydweithiau mae pobl a busnesau'n dibynnu'n arnyn nhw'n parhau yn gadarn.
- Sicrhau bod yr holl ddarparwyr cyfathrebiadau, sydd o fewn cwmpas Gofynion Diogelwch Telathrebu y Llywodraeth, yn dilyn canllawiau Ofcom yng nghyswllt y gofynion.
- Gweithio gyda'r diwydiant i ganfod a chau bylchau mewn safonau ac arferion gorau. Byddwn yn edrych yn benodol ar rwydweithiau cydgyfeirio, sefydlogrwydd rhwydweithiau a chyfnodau segur rhwydweithiau.
- Parhau i ymgysylltu â darparwyr cyfathrebiadau i gynnal cynllun profion treiddio bygythiadau sy'n seiliedig ar wybodaeth (TBEST). Mae hyn yn asesu pa mor dda y gall cwmni ddelio ag ymosodiad ar sail technegau a ddefnyddir gan droseddwyr seiber a gwladwriaethau gelyniaethus.

# Meysydd ffocws

## Cynnal y gwasanaeth post cyffredinol

3.17 Mae'r rhan fwyaf o bobl a busnesau yn dibynnu ar y gwasanaeth post cyffredinol. Ein rôl ni mewn post ydy sicrhau dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol yng ngoleuni'r newid parhaus yn y sector. Mae hyn yn cynnwys y gostyngiad mewn llythrennau a thrawsnewid y sector parseli. Rydym hefyd yn monitro cyllid a pherfformiad y Post Brenhinol. Bydd y dull rheoleiddio a sefydlwyd gennym yn 2012 yn parhau mewn lle tan 2022, fel y nodwyd yn ein hadolygiad yn 2017. Dyma ein prif weithgareddau:

- **Deall anghenion defnyddwyr post**. Mae'r twf yn nifer y parseli a'r gostyngiad yn nifer y llythyrau yn dal i effeithio ar y farchnad bost. Yn y cyd-destun hwn, byddwn yn asesu a yw'r farchnad bost yn bodloni anghenion rhesymol defnyddwyr. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein canfyddiadau yn 2020.
- **Fel un o brif fesurau diogelu'r fframwaith rheoleiddio, byddwn yn parhau i fonitro perfformiad y Post Brenhinol ar effeithlonrwydd, ansawdd gwasanaeth, perfformiad ariannol y rhwydwaith gwasanaeth cyffredinol, a chystadleuaeth mewn parseli a llythyrau**. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro profiadau defnyddwyr yn y sector post.
- **Gwaith ar ddyfodol rheoleiddio post.** Byddwn yn dechrau ein gwaith ar ddyfodol rheoleiddio post a bydd y gwaith hwn yn dod i ben yn 2022. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys modelu costau diwygiedig gweithrediadau'r Post Brenhinol ac adolygiad o effeithlonrwydd y Post Brenhinol, ynghyd â chanfyddiadau'r adolygiad o anghenion

defnyddwyr. Byddwn hefyd yn adolygu mynediad a chystadleuaeth a pharseli ac yn ystyried a oes angen rhagor o fesurau i ddiogelu defnyddwyr.

## Parhau i arloesi yn y broses rheoleiddio a data i helpu defnyddwyr a busnesau

3.18 Mae'r marchnadoedd mae Ofcom yn eu rheoleiddio yn newid yn gyflym ac maent yn arloesol iawn, sy'n creu cyfleoedd a heriau newydd i ddefnyddwyr. O'r herwydd, mae angen i ni sicrhau bod ein gwaith yn arloesol ac yn edrych i'r dyfodol. Byddwn yn parhau i 'sganio'r gorwel' er mwyn rhagweld datblygiadau yn y farchnad ac mewn technoleg ar draws ein sectorau. Byddwn hefyd yn parhau i gydweithio â rhanddeiliaid, rheoleiddwyr eraill a sefydliadau academaidd i sicrhau'r canlyniadau gorau i ddefnyddwyr.

3.19 Bydd gwaith manwl yn y meysydd canlynol:

- **Effeithlonrwydd ynni.** Credwn fod gan y diwydiant digidol ran allweddol i'w chwarae o ran lleihau ôl troed carbon pobl a sefydliadau. Felly rydym yn dechrau ar fenter i ddeall sut gall rheoleiddio gefnogi a hyrwyddo effeithlonrwydd ynni. Byddwn yn cyflawni'r gwaith hwn mewn cydweithrediad â'r diwydiant a rheoleiddwyr eraill.
- **Mabwysiadu dulliau newydd o lunio polisïau.** Byddwn yn parhau i archwilio gwahanol ffyrdd o gyflwyno polisïau, gan gynnwys sut mae gwneud hynny'n gyflymach ac yn rheolaidd; yn adeiladu timau cydweithredol sy'n perfformio'n dda; ac yn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o bobl y mae ein polisïau'n effeithio arnynt neu sydd â diddordeb ynddynt.
- **Cydweithio'n allanol i ddatblygu sgiliau ac i gyflwyno rheoleiddio arloesol.** Byddwn yn datblygu ac yn profi cydweithrediad gyda phartneriaid allanol er mwyn datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i fod yn rheoleiddiwr cyfathrebiadau effeithiol. Byddwn hefyd yn parhau i hyrwyddo arloesedd rheoleiddio yn Ofcom drwy gydweithio'n agos â rheoleiddwyr a rhanddeiliaid eraill. Bwriadwn adeiladu ar ein prototeip waled digidol[14] sydd i'w gyflwyno ym mis Mawrth, gan weithio gyda phartneriaid yn y diwydiant a'r Llywodraeth i edrych ar ffyrdd arloesol o'i ddefnyddio, fel cefnogi Cyfathrebu Agored.
- **Parhau i wella sgiliau a galluoedd data Ofcom.** Byddwn yn cyflwyno rhaglen trawsnewid digidol i wella arferion presennol ar draws Ofcom ymhellach ac i arfogi cydweithwyr i ddeall ac i ymateb i newidiadau yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio.
- **Mabwysiadu dulliau o lunio polisïau sy'n canolbwyntio ar ddata.** Byddwn yn parhau i ddefnyddio dadansoddiadau data i fonitro canlyniadau polisi ac i lywio ein gwaith rheoleiddio presennol a'n gwaith rheoleiddio yn y dyfodol. Er enghraifft, byddwn yn creu system cadwyn atal ar gyfer rheoli rhifau ffôn, a fydd yn datblygu gwaith archwiliadol gan ddefnyddio cyllid o Gronfa Arloesi'r Rheoleiddwyr.

[14] Mae waled ddigidol yn system electronig a ddefnyddir gan ddefnyddiwr i wneud trafodion ariannol

## Cynyddu amrywiaeth a chynhwysiant

3.20 Mae ein gwaith ar amrywiaeth a chynhwysiant yn hanfodol i sicrhau ein bod yn gwneud ein gorau i gynrychioli anghenion pobl ledled y DU. Rydym yn cydnabod bod gan Ofcom fwy i'w wneud, fel cyflogwr ac fel rheoleiddiwr, i sicrhau bod gennym weithlu sy'n cynrychioli'r DU ac sy'n edrych ar faterion mewn ffordd gynhwysol.

3.21 Rydym yn cyflwyno ein Rhaglen Amrywiaeth a Chynhwysiant sy'n canolbwyntio ar gyflawni tri amcan strategol erbyn 2022. Ein nod yw creu gweithlu amrywiol i adlewyrchu poblogaeth y DU yn well; adeiladu diwylliant yn Ofcom sy'n gwneud amrywiaeth a chynhwysiant yn ganolog i'n hymarfer gwaith; a sicrhau bod anghenion a buddiannau gwahanol pobl yn cael eu hystyried wrth i ni wneud ein gwaith rheoleiddio. Rydym yn symud ymlaen yn y meysydd hyn, ac ar hyn o bryd mae gennym nifer o raglenni mewnol i hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant - gan gynnwys rhaglenni datblygu cydweithwyr a ffocws ar ymddygiadau cynhwysol, llesiant ac iechyd meddwl.

3.22 Yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf byddwn yn cyhoeddi ein:

- **Diweddariad ar y Rhaglen Amrywiaeth a Chynhwysiant.** Bydd hyn yn nodi ein meysydd blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Ochr yn ochr â hyn byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad Amrywiaeth a Chynhwysiant yn Ofcom, a fydd yn dangos proffil amrywiaeth cydweithwyr yn ystod 2019-20. Bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi yn Ch2. Rydym yn parhau i weithio tuag at ein targedau amrywiaeth presennol ar gyfer y gweithlu, ac yn 2020, byddwn yn sefydlu set newydd o dargedau hyd at 2025.
- **Adroddiad Cyflog Cyfartal a Chyflog o ran y Rhywiau.** Bydd hwn yn egluro ein data ar gyflog o ran y rhywiau ac ethnigrwydd ar gyfer y cyfnod 2020-21. Bydd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau y mae Ofcom yn eu cymryd i sicrhau dull gweithredu cadarn a theg ar gyfer sut caiff cydweithwyr eu gwobrwyo.

3.23 Rydym hefyd yn credu bod darlledu o fudd i ddefnyddwyr pan fydd yn adlewyrchu ein cymdeithas gyfoethog ac amrywiol, gan ddefnyddio'r doniau gorau o bob rhan o'n cymunedau. Byddwn yn parhau i adrodd ar amrywiaeth mewn darlledu ar deledu a radio, ac rydym wedi herio'r diwydiant i wella. Rydym yn disgwyl i ddarlledwyr adeiladu ar y momentwm maen nhw wedi'i gyflawni drwy arwain cynlluniau i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth. Yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf byddwn yn cyhoeddi ein:

- **Adroddiadau blynyddol ar amrywiaeth mewn teledu a radio.** Byddwn yn parhau i adrodd ar amrywiaeth yn niwydiannau teledu a radio'r DU er mwyn darparu darlun cynhwysfawr o berfformiad darlledwyr unigol – a'r diwydiant drwyddo draw – yng nghyswllt cyfle cyfartal, amrywiaeth a chynhwysiant yn eu sefydliadau.
- **Adroddiad blynyddol ar y BBC.** Byddwn yn parhau i ddal y BBC i gyfrif am rwymedigaethau amrywiaeth trwydded weithredu'r BBC. Byddwn yn adrodd ar gydymffurfiad y BBC yn ein hadroddiad blynyddol ar y BBC yn Ch3.
- **Cod Hygyrchedd Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alw (ODPS).** Ar ôl cyflwyno'r gofynion newydd o ran hygyrchedd gwasanaethau rhaglenni ar-alw, ac yn amodol ar ymgynghori pellach ar ein hargymhellion yn unol â chais yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y

Cyfryngau a Chwaraeon, byddwn yn cyhoeddi ein Cod hygyrchedd gwasanaethau rhaglenni ar-alw.

## Cefnogaeth a chymorth drwy Brexit a chysylltiadau rhyngwladol parhaus

3.24 Fel rheoleiddiwr cyfryngau, telegyfathrebiadau a gwasanaethau post y DU, mae Ofcom yn annibynnol ar y Llywodraeth ac nid oes gennym farn ar Brexit..

3.25 Mae Llywodraeth y DU yn arwain y trafodaethau gyda'r UE a bydd yn cytuno ar y fframweithiau cyfreithiol a fydd yn berthnasol yn y DU ar ôl Brexit. Drwy gydol proses Brexit, rydym wedi rhoi cyngor technegol annibynnol i'r Llywodraeth yng nghyswllt y sectorau rydym yn eu rheoleiddio, a byddwn yn parhau i wneud hynny. Rydym yn cefnogi awydd y Llywodraeth am waith rheoleiddio effeithiol parhaus, wedi'i ddarparu drwy gydweithio'n agos â'n partneriaid yn Ewrop ac yn rhyngwladol.

3.26 Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu parhau i ddysgu gan reoleiddwyr eraill a chyfnewid yr arferion gorau â nhw yn yr UE a'r tu hwnt, byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein perthynas ddwyochrog gyda chydweithwyr perthnasol ar draws y byd. Byddwn hefyd yn parhau i gymryd rhan yng ngwaith cyrff fel Llwyfan Awdurdodau Rheoleiddio Ewrop (EPRA), y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) a'r Sefydliad Cyfathrebiadau Rhyngwladol (IIC).

3.27 Bydd ein perthynas â rhwydweithiau rheoleiddio'r UE yn y dyfodol yn amodol ar drafodaethau rhwng y Llywodraeth a'r UE a chyrff eraill. Byddwn yn parhau i ddarparu cyngor technegol annibynnol i'r Llywodraeth ar hyn ac ar agweddau eraill ar ein perthynas â'r UE a'r tu hwnt yn y dyfodol sy'n ymwneud â'n sectorau. Byddwn hefyd yn parhau i wneud y canlynol:

- ymgysylltu â defnyddwyr a rhanddeiliaid y diwydiant a'u cefnogi drwy Brexit,
- gweithio i sicrhau ein bod yn barod am ystod o ganlyniadau posibl ar ôl diwedd y cyfnod pontio.

# 4. Gwaith parhaus i gyflawni ein nodau a'n dyletswyddau

4.1 Yn Adran 3 rydym wedi amlygu ein blaenoriaethau ar gyfer 2020/21. Mae ein rhaglen ehangach o waith parhaus, sy'n cael ei chrynhoi fesul thema yn yr adran hon, yn chwarae rhan yr un mor bwysig o ran cyflawni ein dyletswyddau a'n nodau ac mae'n sail i reoleiddio ein sectorau.

4.2 Mae llawer o raglen gwaith parhaus Ofcom yn orfodol ac wedi'i bennu mewn deddfwriaeth. Mae hyn yn cynnwys monitro'r BBC, gorfodi safonau rhaglenni a monitro'r sbectrwm radio am ymyriant. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn gwneud gwaith dewisol i sicrhau ein bod mewn sefyllfa dda i helpu i sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb.

## Cynnal rhwydweithiau cyfathrebu effeithiol

4.3 Mae sicrhau bod gan ddefnyddwyr a busnesau rwydweithiau cyfathrebu sy'n gweithio iddynt yn rhan ganolog o waith Ofcom. Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod y seilwaith ffisegol a sbectrwm yn effeithiol, yn gadarn ac yn barod ar gyfer y dyfodol yn ogystal â chynnal y systemau sydd wedi cefnogi cyfathrebu yn y Deyrnas Unedig yn y gorffennol.

- **Symud i linellau digidol.** Wrth i wasanaethau ffeibr gael eu cyflwyno ac wrth i ddarparwyr cyfathrebu gynllunio i roi'r gorau i ddefnyddio'r rhwydwaith ffôn cyfnewidfa gyhoeddus copr (PSTN), bydd mwy a mwy o ddefnyddwyr a busnesau yn symud i linellau digidol lle bydd galwadau llais yn cael eu cludo dros fand eang. Byddwn yn gweithio gyda darparwyr er mwyn helpu i sicrhau bod unrhyw faterion sy'n cael eu codi yn sgil y mudo hwn yn cael eu hadnabod a'u trin, er mwyn diogelu defnyddwyr rhag niwed ac er mwyn amharu cyn lleied â phosibl arnyn nhw.
- **Diwygio Openreach yn effeithiol.** Rydym yn monitro gwahanu Openreach yn gyfreithiol oddi wrth BT ac yn adrodd yn flynyddol ar gydymffurfiad BT ac Openreach ag ymrwymiadau BT Group. Rydym yn monitro effaith y trefniadau gwahanu ar ein hamcanion ehangach, fel sydd wedi cael eu nodi yn Adolygiad Strategol 2016 o Gyfathrebiadau Digidol, er mwyn galluogi mynediad at fand eang cyflym a dibynadwy drwy fuddsoddi mewn rhwydweithiau sy'n cystadlu. Rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad yn 2020/21 ar y canlyniadau cyffredinol a fydd yn asesu effeithiolrwydd y camau a gymerwyd i: fod o fudd i ddefnyddwyr, mynd i'r afael â'n pryderon ynghylch cystadleuaeth a hybu buddsoddiadau newydd mewn rhwydweithiau.
- **Monitro ansawdd gwasanaethau telegyfathrebiadau cyfanwerthol.** Byddwn yn parhau i fonitro darparu a thrwsio gwasanaethau telegyfathrebiadau cyfanwerthol copr a ffeibr.
- **Awdurdodi'r defnydd o sbectrwm.** Mae Ofcom yn darparu cyngor a chymorth i ystod eang o ddefnyddwyr sbectrwm. Mae ein timau sbectrwm arbenigol yn dadansoddi'r dechnoleg yn fanwl ac yn defnyddio mesuriadau go iawn i wella sut caiff sbectrwm ei ddefnyddio a'i rannu. Rydym yn ymchwilio i adroddiadau o ymyriant radio niweidiol

(gan gynnwys i gyfathrebu diogelwch-bywyd), ac rydym yn defnyddio camau gorfodi rhagweithiol ac wedi'u targedu i adnabod a datrys achosion o ddefnyddio sbectrwm heb awdurdod ac er mwyn atal gwerthu neu ddefnyddio offer nad yw'n cydymffurfio.

- **Dadansoddi a rhyddhau gwybodaeth am y defnydd o sbectrwm.** Rydym yn rhyddhau gwybodaeth am y defnydd o sbectrwm mewn fformat agored, gan gynnwys mapiau sbectrwm daearyddol rhyngweithiol, er mwyn galluogi rhanddeiliaid i ddeall yn well sut mae sbectrwm yn cael ei ddefnyddio. Rydym hefyd yn dadansoddi'r defnydd a wneir o sbectrwm ar draws sectorau penodol er mwyn cefnogi ein hadolygiadau strategol a chyfrannu at ein polisïau.
- **Rheoli sbectrwm a chynllunio ar gyfer gofynion y dyfodol.** Mae gan Ofcom ddyletswydd i sicrhau bod sbectrwm radio'r DU yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithlon. Rydym yn gwneud hyn drwy gynllunio ar gyfer gofynion sbectrwm yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau sy'n cynnwys lloeren, cyfleustodau a thrafnidiaeth.
- **Dyrannu a rheoli rhifau ffôn.** Mae Ofcom yn dyrannu rhifau ffôn i ddarparwyr cyfathrebiadau, sydd wedyn yn eu rhoi i ddefnyddwyr a busnesau. Rydym yn sicrhau bod y rhifau hyn yn cael eu defnyddio'n effeithlon, sy'n creu llai o aflonyddwch ac yn lleihau costau.
- **Gwasanaethau cyffredinol blaeno rol.** Mae'r Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd yn mynnu bod aelod wladwriaethau'n cynnal adolygiadau bob tair blynedd o'r gwasanaethau cyffredinol blaenorol maent yn dymuno eu cadw. Rhaid cwblhau'r adolygiad cyntaf o'r fath erbyn 21 Rhagfyr 2021. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi y bydd yn mynnu bod Ofcom yn cynnal yr adolygiadau hyn. Byddwn felly'n dechrau adolygu rhwymedigaethau'r Gwasanaeth Cyffredinol blaenorol, gan gynnwys blychau ffôn cyhoeddus, biliau manwl a llyfrau ffôn wedi'u hargraffu.

## Diogelu a deall defnyddwyr

4.4 Mae defnyddwyr yn y DU yn dal wrth galon ein gwaith. Byddwn yn parhau i weithio i amddiffyn pobl ac i ddeall eu hanghenion.

- **Darpariaeth band eang a symudol gwell – lle bynnag fyddwch chi.** Rydym yn parhau â'n gwaith i wella mynediad at wasanaethau cyfathrebiadau yn y lleoliadau mwyaf anghysbell a'r rhai anoddaf eu cyrraedd. Bydd ein gwaith ar y gwasanaeth band eang cyffredinol a Rhwydwaith Gwledig a Rennir arfaethedig y cwmnïau symudol yn helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn. Byddwn yn parhau i gasglu tystiolaeth ac yn cynhyrchu dadansoddiad o ansawdd uchel er mwyn cyfrannu at benderfyniadau a pholisïau cyhoeddus. Byddwn hefyd yn sicrhau bod gan bobl yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth er mwyn gwella eu gwasanaethau cyfathrebu.

- **Sicrhau bod llais y defnyddiwr yn cael ei glywed.** Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r cyhoedd drwy ein tîm cyswllt defnyddwyr, sy'n rhoi cefnogaeth a chyngor i bobl ac i fusnesau. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gydag ystod eang o grwpiau defnyddwyr ac yn parhau i gryfhau'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebu, y corff defnyddwyr annibynnol ar gyfer y sector telegyfathrebu. Byddwn yn cynyddu'r gyllideb sydd ar gael i'r Panel ar

gyfer 2020/21, gan ei alluogi i edrych ar raglen waith ehangach ac eiriol ar ran defnyddwyr gyda llais cryfach.

- **Sgamiau a galwadau niwsans.** Er mwyn helpu i leihau galwadau niwsans a sgamiau cysylltiedig, rydym yn gweithio gyda darparwyr gwasanaethau cyfathrebiadau'r DU i amharu ar y galwadau hyn a'u hatal rhag cyrraedd cwsmeriaid. Rydym yn gweithio ochr yn ochr ag asiantaethau gorfodi eraill, fel Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, cyrff buddiannau defnyddwyr a rheoleiddwyr rhyngwladol, er mwyn rhannu gwybodaeth a'r arferion gorau. Er mwyn mynd i'r afael â sgamiau'n benodol, rydym wedi bod yn cydweithio â'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol o dan gynllun “Stop Scams UK” sy'n ceisio dod â gwasanaethau ariannol, darparwyr cyfathrebiadau a sefydliadau cyfryngau cymdeithasol ynghyd, i gydlynu ymateb wedi'i arwain gan ddiwydiant i sgamiau. Gan ddibynnu ar ymrwymiad y diwydiant, bydd y rhaglen waith hon yn cael ei lansio'n swyddogol ym mis Mawrth 2020.
- **Cymharu ansawdd gwasanaethau.** Mae adroddiad blynyddol Ofcom, Dewis y Darparwr Band Eang, Symudol a Llinell Dir Gorau - yn darparu metrigau mae modd eu cymharu ar ansawdd gwasanaethau darparwyr cyfathrebiadau, gan gynnwys delio â chwynion a boddhad cwsmeriaid. Byddwn hefyd yn parhau i gynhyrchu cyhoeddiadau chwarterol am gwynion a gyflwynir i Ofcom yn erbyn y darparwyr teledu drwy dalu a thelegyfathrebiadau mwyaf.
- **Cefnogi defnyddwyr yn y marchnadoedd cyfathrebiadau.** Byddwn yn monitro effeithiolrwydd y cynlluniau y mae Ofcom yn eu cymeradwyo neu'n eu goruchwylio, fel cyrff dulliau amgen o ddatrys anghydfod.

## Cefnogi darlledu yn y DU

4.5 Mae ein gwaith i gefnogi'r diwydiant darlledu'n cynnwys gwaith trwyddedu Ofcom a sicrhau y cydymffurfir â safonau darlledu ar draws sawl llwyfan. Rydym hefyd yn gweithio i wneud yn siŵr bod y gofynion sydd ar y BBC yn cael eu diwallu, a byddwn yn monitro effaith y BBC ar gystadleuaeth.

- **Trwyddedu gwasanaethau darlledu teledu a radio.** Byddwn yn parhau i gyhoeddi trwyddedau ar gyfer pob gwasanaeth teledu masnachol lleol a chenedlaethol yn y DU a phob gwasanaeth radio masnachol a chymunedol analog a digidol. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod ystod ac amrywiaeth o wasanaethau ar gael ledled y DU. Rydym yn gallu gosod cosbau pan nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion trwydded, ac, mewn achosion difrifol, rydym yn gallu dirymu trwyddedau.
- **DAB ar raddfa fach.** Byddwn yn datblygu cynlluniau ar gyfer gweithredu a thrwyddedu DAB ar raddfa fach, gyda disgwyl i Ofcom hysbysebu'r trwyddedau amlblecs cyntaf yn gynnar yn 2020.
- **Monitro'r BBC.** I ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol ac i asesu bod y BBC yn cyflawni yn erbyn ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus, rydym yn monitro gweithgareddau'r BBC (gan gynnwys ei gynlluniau ar gyfer y dyfodol) drwy ddefnyddio amrywiaeth o wybodaeth.

- **Gorfodi gofynion y BBC.** Pan fo’n briodol, byddwn yn gorfodi gofynion penodol sy'n berthnasol i'r BBC o dan y Siarter a'r Cytundeb, ac o dan y Fframwaith Gweithredu a osodwyd gan Ofcom.
- **Gorfodi gofynion ar gyfer gwasanaethau mynediad.** Byddwn yn parhau i sicrhau bod darlledwyr a gwasanaethau rhaglenni ar-alw yn darparu cyfran o’u rhaglenni â gwasanaethau mynediad i bobl sydd â nam ar eu golwg neu eu clyw (isdeitlo, arwyddo a disgrifiadau sain). Rydym yn parhau i weithio gyda darlledwyr a darparwyr gwasanaethau ffrydio i fynd i’r afael â materion eraill fel ansawdd a hwylustod defnyddio gwasanaethau mynediad.
- **Gorfodi safonau rhaglenni.** Byddwn yn parhau i sicrhau bod rhaglenni sy'n cael eu darlledu ar y teledu a radio yn bodloni'r safonau sydd wedi cael eu gosod yn y Cod Darlledu. Mae'r rhain yn cynnwys rheolau ynghylch niwed a thramgwydd, trosedd, crefydd, cywirdeb dyladwy a didueddrwydd dyladwy, tegwch a phreifatrwydd a chyfeiriadau masnachol. Rydym yn asesu cwynion gan wylwyr a gwrandawyr. Ar ben hynny rydym yn chwilio am achosion o dorri ein rheolau, ac yn canfod achosion o’r fath, a hynny drwy waith monitro wedi'i dargedu. Os bydd achos difrifol neu reolaidd o dorri ein rheolau, gallwn roi sancsiwn statudol i’r darlledwr. Mae hyn yn gallu cynnwys cosb ariannol, ac, yn yr achosion mwyaf difrifol, gallwn ddiddymu ei drwydded i ddarlledu.

4.6 Rydym yn rheoleiddio cynnwys ar sianeli teledu'r BBC, ei orsafoedd radio, yr iPlayer a gwefan y BBC. Byddwn yn ystyried cwynion a fydd yn cael eu cyfeirio atom os nad ydy'r sawl sy’n cwyno yn fodlon â’r ateb gan y BBC, ond gallwn hefyd gamu i mewn yn gynharach os bydd raid. O ran deunydd ar-lein ar wefan ac apiau’r BBC, mae modd atgyfeirio cwynion atom i gael ein barn arnyn nhw.

4.7 Rydym hefyd yn rheoleiddio gwasanaethau ffrydio ‘fideo ar-alw’ sydd yn y DU. Mae’n rhaid i’r rhain ddiwallu cyfres o safonau golygyddol sy’n edrych ar amddiffyn plant, casineb ar lafar a chyfeiriadau masnachol.

4.8 Mae disgwyliadau cynulleidfaoedd o ran safonau ar wasanaethau darlledu ac ar-alw yn esblygu dros amser. Rydym yn bwriadu cynnal ymchwil ar ddisgwyliadau ar gyfer safonau ar draws llwyfannau gwahanol. Bydd hyn yn ein helpu i ddefnyddio rheolau cymesur sy’n adlewyrchu newidiadau yn ymddygiad gwylio a disgwyliadau cynulleidfaoedd.

## Monitro'r farchnad bost

4.9 Mae sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaeth post cyffredinol a deall y newid yn y farchnad bost yn rhan bwysig o'n gwaith. Byddwn yn parhau i geisio deall rhagor am y farchnad ac am gwsmeriaid post wrth i ni baratoi ein hadolygiad nesaf o’r fframwaith rheoleiddio ar gyfer post.

- **Monitro'r farchnad bost a pherfformiad y Post Brenhinol.** Byddwn yn parhau i fonitro perfformiad y Post Brenhinol o ran effeithlonrwydd, ansawdd gwasanaeth, perfformiad ariannol y rhwydwaith gwasanaeth cyffredinol, a chystadleuaeth mewn parseli a llythyrau. Byddwn hefyd yn monitro profiadau defnyddwyr yn y sector post. Byddwn yn

parhau i adrodd ar y patrymau hyn yn ein diweddariad monitro blynyddol ar y farchnad bost, a gyhoeddir ddiwedd 2020.

## Trefniadau gorfodi effeithiol a chadarn

4.10 Mae ein rhaglen waith ehangach a'r meysydd blaenoriaeth a nodir yn adran 3, yn cael eu hategu gan ein hymrwymiad i feithrin diwylliant o gydymffurfio ymysg darparwyr cyfathrebiadau yn y DU. Rydym yn monitro cwynion, yn dadansoddi tystiolaeth, yn ymgysylltu â'r diwydiant ac yn cymryd camau pan fydd angen, gan sicrhau bod ein penderfyniadau'n cael eu gorfodi a bod defnyddwyr yn cael eu diogelu rhag arferion niweidiol.

4.11 Rydym yn parhau i gorfodi ein rheolau i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu a bod darparwyr cyfathrebiadau yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau rheoleiddio. Rydym yn monitro cydymffurfiad darparwyr cyfathrebiadau â rhwymedigaethau diogelwch rhwydwaith er mwyn lleihau'r risg o doriadau.

4.12 Mae ein timau sbectrwm hefyd yn darparu cymorth arbenigol ar gyfer digwyddiadau chwaraeon a gwladwriaethol mawr yn y DU, ac mae'n rhoi trwyddedau radio i amrywiaeth eang o ddefnyddwyr er mwyn galluogi mynediad i sbectrwm a hyrwyddo gwasanaethau arloesol.

## Dyfnhau a rhannu ein dealltwriaeth o gyfathrebu

4.13 Mae ein gwaith yn cael ei lywio gan ein dealltwriaeth o'n sectorau a disgwyliadau pobl yng nghyswllt gwasanaethau cyfathrebu, sy'n ein galluogi i gynllunio'n effeithiol ac addasu i'r newidiadau yn yr amgylchedd cyfathrebu.

- **Ymchwil i'r farchnad a gwybodaeth am y farchnad.** Rydym yn ymchwilio i'r marchnadoedd cyfathrebu ac i ddewisiadau ac ymddygiad defnyddwyr. Mae hyn yn sicrhau bod gennym ddealltwriaeth drwyadl a chyfredol o ddefnyddwyr a busnesau yn y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio. Rydym yn casglu data'n uniongyrchol gan randdeiliaid yn y diwydiant ac yn darparu'r data hynny drwy gyhoeddiadau ac ar ein gwefan.
- **Cyhoeddi ein hadroddiadau ymchwil blynyddol.** Bydd y rhain yn rhoi gwybod am ddarpariaeth a chyflymder rhyngrwyd, gwasanaethau ar-lein a'r diwydiant cyfryngau. Byddwn yn gweithio i sicrhau bod ein gwybodaeth yn fwy perthnasol ac yn fwy hwylus; cyhoeddir data ym mhob achos yn ein hadnoddau gweledol a'n hadnoddau ar-lein.
    - **Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd.** Byddwn yn parhau i adrodd ar argaeledd ac amcangyfrif o'r cyflymderau ar gyfer rhwydweithiau band eang symudol a sefydlog cyflym iawn ac sy'n gallu delio â gigabits yn y diweddariad blynyddol hwn, sydd hefyd yn cynnwys fersiwn ar gyfer pob un o'r gwledydd datganoledig. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r prif adroddiad yn Ch3.
    - **Adroddiad Cyfryngau'r Genedl.** Dyma ein hadroddiad blynyddol ar deledu (gan gynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a phob gwasanaeth fideo) a radio,

sydd hefyd yn cynnwys fersiwn ar gyfer pob un o'r gwledydd datganoledig. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r prif adroddiad yn Ch2.

  - **Adroddiad Ein Gwlad Ar-lein.** Dyma ein hadroddiad blynyddol ar wasanaethau ar-lein, a fydd nawr yn ei ail flwyddyn. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r prif adroddiad yn Ch1.

- **Llythrennedd yn y cyfryngau.** Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol ar ddefnyddio'r cyfryngau, agweddau a dealltwriaeth oedolion a phlant. Byddwn yn astudio dealltwriaeth pobl o ddefnyddio data a'u hagweddau at hynny. Byddwn hefyd yn edrych yn fanwl ar ymddygiad ac agweddau plant ar-lein yng nghyd-destun y niwed y gallen nhw ei weld, gan gynnwys y berthynas rhwng niwed ar-lein ac all-lein. Drwy wneud hynny, byddwn yn cydweithio â phartneriaid cenedlaethol a rhyngwladol er mwyn deall y materion hyn yn well a helpu i siapio a chyfrannu at y drafodaeth.
- **Monitro datblygiadau technolegol a masnachol i baratoi ar gyfer y dyfodol.** Byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau technolegol a newidiadau yn y farchnad cyfathrebu, gan gynnwys newidiadau yn ymddygiad a disgwyliadau defnyddwyr. Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i gyfrannu at ein gwaith polisi a gwneud penderfyniadau, gan helpu i sicrhau bod pobl a busnesau yn elwa o arloesedd technolegol yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio.

## Ymgysylltu â chyrff eraill

4.14 Mae gweithio gyda Llywodraeth y DU, Llywodraethau datganoledig, rheoleiddwyr eraill a chyrff eraill, yn y DU ac yn rhyngwladol, yn ein helpu i wella canlyniadau i ddefnyddwyr yn y DU drwy rannu gwybodaeth a chamau gweithredu cydgysylltiedig.

- **Gweithio gyda Llywodraeth y DU, Llywodraethau a gweinyddiaethau datganoledig a chyrff eraill, ynghylch diogelu cynulleidfaoedd.** Rydym yn ymgysylltu â Llywodraethau, diwydiant a chyrff eraill i ddiogelu cynulleidfaoedd, ar draws amgylcheddau traddodiadol ac ar-lein. Rydym hefyd yn aelod o Gyngor Llywodraeth y DU ar Ddiogelwch ar y Rhyngrwyd (UKCIS) ac yn gweithio'n agos gyda rheoleiddwyr eraill ar draws Ewrop, drwy'r Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd ar gyfer Gwasanaethau Clyweledol (ERGA), i wella'r diogelwch ar gyfer gwasanaethau clyweledol.
- **Gweithio gyda Llywodraeth y DU, Llywodraethau a gweinyddiaethau datganoledig a chyrff eraill ar seilwaith rhwydweithiau.** Rydym yn ymgysylltu â Llywodraethau a gweinyddiaethau datganoledig a nifer o gyrff eraill ar draws y DU, gan roi cyngor ar faterion technegol. Rydym yn cynghori Llywodraeth y DU a Llywodraethau a gweinyddiaethau datganoledig ar faterion sy'n ymwneud ag argaeledd, ac yn y cymorth rydym yn ei darparu i wella darpariaeth symudol ar draws y DU. Rydym yn gweithio gyda rheoleiddwyr eraill i fynd i'r afael â heriau seilwaith cyffredin ar draws sectorau gwahanol, drwy ein gwaith fel aelod o Rwydwaith Rheoleiddwyr y DU (UKRN).
- **Ymgysylltu â rhanddeiliaid rhyngwladol.** Rydym yn ymgysylltu â nifer o randdeiliaid rhyngwladol ynghylch rheoleiddio cyfathrebiadau, i ddysgu o'u profiadau ac i sicrhau bod syniadau polisi sy'n dod i'r fei, ac unrhyw ddeddfwriaeth ryngwladol sy'n berthnasol yn y DU, yn ymateb i anghenion ein sector cyfathrebiadau.

4.15 Bydd Ofcom yn parhau i gynrychioli’r DU, o dan gyfarwyddyd gweinidogol, ar gyrff rhyngwladol fel yr Undeb Telegyfathrebiadau Ryngwladol (ITU) a’r Gynhadledd Ewropeaidd ar Weinyddiaethau Post a Thelegyfathrebu (CEPT).

4.16 Bydd perthynas Ofcom â rhwydweithiau rheoleiddio’r UE yn y dyfodol yn amodol ar drafodaethau rhwng y DU a'r UE.

4.17 Rydym yn cydweithio’n rhyngwladol er mwyn sicrhau bod sbectrwm yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd wedi’i chydlynu, ac er mwyn rhannu profiadau a gwthio strategaeth a chyfeiriad.

4.18 Bydd Ofcom yn ystyried sut y gallwn helpu'r Llywodraeth i gyrraedd ei tharged allyriadau sero net ar gyfer 2050. Rydym wedi gweithio i leihau ein hôl troed carbon ers 2007, a byddwn yn parhau i ymchwilio i weld sut gallwn leihau ein hôl troed ymhellach, ar yr un pryd â herio’r diwydiant i chwarae ei ran hefyd. Bydd gwaith arall yn y maes hwn yn cynnwys: dadansoddi sut mae ein diwydiannau’n effeithio ar yr amgylchedd; pa gamau gweithredu y gallwn ni a’r diwydiant eu cymryd i fynd i’r afael â’r heriau amgylcheddol hyn; a chydweithio â sefydliadau eraill, gan gynnwys rheoleiddwyr eraill, ar fentrau amgylcheddol ar y cyd.

# 5. Cyflawni canlyniadau da i ddefnyddwyr ledled y DU

5.1 Prif ddyletswydd Ofcom yw hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau a hybu buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle y bo hynny'n briodol. Mae’n bwysig ein bod yn mynegi’r canlyniadau i ddefnyddwyr y byddem yn hoffi eu cyflawni yn ein rhaglen waith.[15] Mae gwneud hynny hefyd yn ein helpu i asesu pa mor dda rydym wedi cyflawni ar ein hamcanion, a beth arall gellir ei wneud.

## Mesurau canlyniadau defnyddwyr

5.2 Yn Adran 3 rydym yn nodi’r hyn rydym yn ceisio ei gyflawni yn ein meysydd gwaith blaenoriaeth. Mae rhestr isod o’r mesurau dangosol a fydd yn ein helpu i asesu pa mor dda y mae ein gweithredoedd wedi cefnogi canlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr. Mae'r mesurau hyn wedi cael eu dylunio i fod yn uchelgeisiol ac, mewn nifer o achosion, gall gymryd nifer o flynyddoedd i’w cyflawni. Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn; gallwn ystyried amryw o ffactorau eraill wrth asesu a ydym wedi cyflawni ein hamcanion.

5.3 Byddwn hefyd yn adrodd am ein perfformiad wrth gymharu â’r canlyniadau yn Adroddiad Blynyddol 2021, a byddwn yn cyhoeddi ystod eang o fesurau manylach ar y canlyniadau i ddefnyddwyr.[16] Rydym hefyd yn disgwyl cyhoeddi adolygiadau ex-post ar gyfer detholiad o brosiectau blaenoriaeth blaenorol bob blwyddyn.

| Blaenoriaethau strategol a meysydd gwaith | Y mesurau rydym eisiau eu gweld |
|---|---|
| **Darpariaeth band eang a symudol gwell – lle bynnag fyddwch chi (Symudol)** | • Cynnydd yng nghyfran daearyddiaeth y DU sy’n cael darpariaeth symudol o ansawdd da gan bob cwmni rhwydwaith symudol<br>• Cyflwyno 5G yn sylweddol a'r buddsoddiad mewn symudol sydd ei angen i gyflawni’r profiad mae defnyddwyr yn ei ddisgwyl yn y tymor canolig i’r tymor hir. |

[15] Rydym yn ymwybodol bod llawer o'r hyn yr hoffem ei gyflawni’n dibynnu ar nifer o ffactorau allanol.
[16] Mae’r rhain yn cynnwys, y rheini a gyhoeddir yn:

- Cysylltu’r Gwledydd ac adroddiadau seilwaith: https://www.ofcom.org.uk/research-and-data/multi-sector-research/infrastructure-research
- Adroddiadau Cymharu Ansawdd Gwasanaethau: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0022/145525/comparing-service-quality-2018.pdf
- Diweddariadau monitro blynyddol ar y farchnad bost: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0022/145525/comparing-service-quality-2018.pdf
- Cyfryngau'r Genedl: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0019/160714/media-nations-2019-uk-report.pdf
- Adroddiadau ar Agweddau Oedolion a’u Defnydd o Gyfryngau: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0021/149124/adults-media-use-and-attitudes-report.pdf
- Rhaglen Amrywiaeth a Chynhwysiant 2018-2022 Ofcom: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0009/112500/dip-statement.pdf

| | |
|---|---|
| | • Lefelau uchel o fodlonrwydd â'r gwasanaeth ymysg cwsmeriaid |
| **Darpariaeth band eang a symudol gwell – lle bynnag fyddwch chi (Sefydlog)** | • Gostyngiad yn nifer y cartrefi sy'n methu cael 10Mbit yr eiliad<br>• Cyflwyno ffeibr llawn / yn gallu delio â gigabits yn eang<br>• Buddsoddiad sylweddol mewn rhwydweithiau ffeibr llawn ac sy'n gallu delio â gigabits<br>• Mwy o gartrefi gyda mwy nag un rhwydwaith ar gael sy'n gallu delio â gigabits<br>• Lefelau uchel o fodlonrwydd â'r gwasanaeth ymysg cwsmeriaid |
| **Tegwch i Gwsmeriaid** | • Lefelau uchel o fodlonrwydd ymysg cwsmeriaid o ran gwerth am arian<br>• Lefelau uchel o fodlonrwydd o ran ymdrin â chwynion<br>Byddwn yn monitro:<br>• Cyfran y cwsmeriaid sydd allan o gontract<br>• Cyfran y bobl sy'n ei chael hi'n anodd gallu fforddio gwasanaethau cyfathrebu |
| **Cefnogi darlledu yn y DU** | • Buddsoddiad parhaus mewn cynnwys gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gan gynnwys buddsoddiad yn y gwledydd a'r rhanbarthau<br>• Canfyddiadau uchel ymysg cynulleidfaoedd am ansawdd teledu<br>• Lefelau uchel o ran cyrhaeddiad a gwylio darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus |
| **Sicrhau bod cyfathrebiadau ar-lein yn parhau i weithio i ddefnyddwyr** | Byddwn yn monitro:<br>• Lefelau ymwybyddiaeth defnyddwyr o offer ar-lein a'u defnydd i ddiogelu defnyddwyr rhag niwed ar-lein |
| **Parhau i arloesi ein dull gweithredu o ran rheoleiddio a data** | Yn fewnol, byddwn yn gwneud y canlynol:<br>• Ceisio deall effaith technolegau presennol, sy'n cael eu datblygu a thechnolegau'r dyfodol<br>• Gweithio ar draws y sefydliad er mwyn gwella ein gallu i gipio, storio, rhannu, dadansoddi a chael gwybodaeth o ddata<br>• Archwilio cyfleoedd ar gyfer arloesi o ran datblygu polisïau |
| **Galluogi rhwydweithiau cryf a diogel** | Byddwn yn gwneud y canlynol:<br>• Adnabod y bylchau mewn safonau a'r arferion gorau a chynnig atebion<br>• Monitro cydymffurfiad â Gofynion Diogelwch Telarhebu |

| | |
|---|---|
| **Cynyddu amrywiaeth a chynhwysiant** | Yn fewnol, byddwn yn ceisio cyflawni'r canlynol:<br>• Cydbwysedd rhwng y rhywiau o 50:50<br>• 40% o fenywod ar lefel uwch;<br>• 13% o gydweithwyr ar lefel uwch yn dod o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig |
| **Cynnal y gwasanaeth post cyffredinol** | Byddwn yn monitro:<br>• Cynaliadwyedd ariannol y Post Brenhinol<br>• Pa mor fodlon yw defnyddwyr â gwasanaethau post. |

## Nodau ar draws y DU

5.4 Mae Ofcom yn rheoleiddio ar gyfer y DU i gyd. Mae ein pwyllgorau cynghori'r gwledydd statudol yn cynghori Ofcom ynghylch buddiannau a safbwyntiau pobl sy'n byw ym mhob un o bedair gw1``1`lad y DU mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau. Mae'r pwyllgorau hyn yn rhoi cyngor i dimau polisi Ofcom ac maent yn gam pwysig yn ein proses o lunio polisïau. Mae safbwyntiau cynulleidfaoedd ar draws y DU hefyd yn cael eu cyflwyno ar Fwrdd Cynnwys Ofcom, sydd ag aelodau profiadol yn cynrychioli pob un o wledydd y DU. Mae gofyniad statudol i bob un o wledydd y DU fod â'i gynrychiolydd ei hun ar y Panel Defnyddwyr Cyfathrebu, sy'n rhoi sylw penodol i anghenion pobl hŷn a phobl anabl, pobl mewn ardaloedd gwledig a phobl sydd ar incwm isel.

5.5 Mae Ofcom nawr hefyd wedi ymrwymo i Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ffurfiol gyda Llywodraethau a deddfwrfeydd yng Nghymru ac yn yr Alban. Disgwylir y cytunir ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth tebyg gyda'r weinyddiaeth yng Ngogledd Iwerddon ar ôl i ddatganoli gael ei adfer.

a) Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Senedd yr Alban ac Ofcom yn ymrwymo Ofcom i ymgynghori ynghylch ei Gynllun Gwaith drafft; ac mae'n nodi'r broses i Weinidogion yr Alban benodi aelod ar Fwrdd Ofcom ymysg pethau eraill.

b) Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn ymrwymo Ofcom i ymgynghori ynghylch ei Gynllun Gwaith drafft; ac mae'n nodi'r broses i Weinidogion Cymru benodi aelod i Fwrdd Ofcom ymysg pethau eraill.

5.6 Mae Bob Downes yn parhau yn Aelod Bwrdd cyntaf Ofcom ar gyfer yr Alban. Penodwyd David Jones yn aelod bwrdd cyntaf Ofcom ar gyfer Cymru ym mis Ebrill 2019. Disgwylir i aelod ar gyfer Gogledd Iwerddon ddilyn pan gaiff y Llywodraeth ddatganoledig ei hadfer. Yn y cyfamser, mae Bob Downes yn gweithredu fel Aelod dros dro ar gyfer Gogledd Iwerddon. Mae'r aelodau Bwrdd hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at flaenoriaethau a gwaith Ofcom, gan sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein nodau ar draws y DU.

## Heriau cyffredin

5.7 Mae darparu gwasanaethau band eang sefydlog, symudol a phost sy’n diwallu anghenion defnyddwyr a busnesau mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell yn peri heriau penodol. Mae nifer anghymesur o’r ardaloedd hyn yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a’r Alban, ond mae’r un heriau yn effeithio ar rai o ranbarthau Lloegr hefyd. Dylai gwasanaethau darlledu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol hefyd ddiwallu anghenion ac adlewyrchu amrywiaeth cynulleidfaoedd ar draws hol ranbarthau a gwledydd y DU. Ar hyn o bryd rydym mewn cyfnod o newid a fydd yn effeithio ar holl wledydd y DU, gyda datblygiadau ynghylch dyfodol rheoleiddio ar-lein a chyfnod parhaus o newid o ran perthynas y DU gyda’r UE a'r tu hwnt.

5.8 Yn 2020/21, fel yr amlinellwyd yn gynharach yn y ddogfen hon, byddwn yn:

- Cyhoeddi ein hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd a diweddariadau ar ddarpariaeth a chyflymderau band eang a symudol, gan gynnwys yr amrywiadau rhwng defnyddwyr gwledig a dinesig ac mewn gwahanol rannau o’r DU. Byddwn yn sicrhau bod yr wybodaeth hon ar gael i ddefnyddwyr i'w helpu i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth.
- Canolbwyntio ar wella darpariaeth symudol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, o ganlyniad i ymrwymiad diweddar y pedwar prif weithredwr i gynyddu’r ddarpariaeth 4G o ansawdd uchel yn yr awyr agored i 92% o dir y DU ac i wella’r ddarpariaeth symudol 4G yn yr awyr agored ym mhob un o wledydd y DU.
- Gweithredu’r gwasanaeth band eang cyffredinol. Byddwn hefyd yn gweithio gyda’r Llywodraethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon i sicrhau rhyngweithio rhwydd â chynlluniau band eang datganoledig sy’n cael arian cyhoeddus, er enghraifft cynllun olynu Cyflymu Cymru a Phrosiect Stratum sef y rhaglen “Cyrraedd 100%”.
- Cyhoeddi ymgynghoriad ar ein cynigion fel rhan o *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr*, ein pedwerydd adolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, sy’n ystyried y tirweddau darlledu gwasanaeth cyhoeddus gwahanol ym mhob un o'r gwledydd.
- Cyhoeddi adroddiadau blynyddol Ofcom ar y cyfryngau (Cyfryngau'r Genedl) ac ar y BBC, gan gynnwys asesu ei berfformiad yn erbyn ei Drwydded Weithredu. Mae pob un o’r adroddiadau hyn yn mynd i’r afael â materion sy’n ymwneud â chyflwyno i bob un o wledydd y DU.
- Parhau i fonitro ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch codi tâl ychwanegol am barseli yng Ngogledd Iwerddon, Ucheldir ac Ynysoedd yr Alban, a rhannau eraill o'r DU.
- Hyrwyddo amrywiaeth a chyfle cyfartal mewn darlledu drwy gyhoeddi adroddiadau ar y diwydiannau teledu a radio a monitro cynnydd darlledwyr o ran cyrraedd targedau 2020 yng nghyswllt cyfle cyfartal, amrywiaeth a chynhwysiant mewn cyflogaeth.
- Chwarae rhan weithredol yn y drafodaeth am ddyfodol rheoleiddio ar-lein a darparu cyngor i wneuthurwyr polisïau. Byddwn yn cyhoeddi’r ail adroddiad Ein Gwlad Ar-lein a fydd yn amlinellu'r tueddiadau yn y sector ar-lein ac yn asesu sut mae pobl yn cael eu gwasanaethu gan raglenni a chynnwys ar-lein.

## Yr Alban

5.9 **Llywodraeth yr Alban.** Yn unol â'n rhwymedigaethau yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth yr Alban, Pwyllgorau ac Aelodau o Senedd yr Alban yn ogystal â Swyddfa'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer yr Alban wrth gyflawni ein rhaglen waith 2020/21.

5.10 **Cyngor technegol.** Mae Ofcom yn awyddus i weld lefel gyffredin o ddarpariaeth gwasanaethau cyfathrebu er mwyn sicrhau bod pobl ar draws pob rhan o'r DU yn gallu elwa o gysylltiad boddhaol lle bynnag y maent yn byw, yn gweithio ac yn teithio. Byddwn felly'n parhau i ddarparu cyngor technegol a rheoleiddiol, yn ogystal â data perthnasol, er mwyn helpu Llywodraeth yr Alban i gyflawni ei phrosiectau seilwaith telegyfathrebiadau - fel y rhaglen 'Cyrraedd 100%' a rhaglen mewnlenwi symudol 4G Llywodraeth yr Alban.

5.11 **Gweithio gyda rhanddeiliaid.** Byddwn hefyd yn cefnogi ein rhwydwaith rhanddeiliaid ehangach yn yr Alban, gan gynnal perthnasoedd gwaith cynhyrchiol â'r diwydiant, y Llywodraeth a rhanddeiliaid seneddol yn yr Alban. Fel rhan o hyn, byddwn yn parhau i ddatblygu ein canolfan polisi a gweithrediadau yng Nghaeredin i helpu i sicrhau ein bod yn gallu ymgynghori'n effeithiol â rhanddeiliaid, gan gynnwys y diwydiant, ac i gynrychioli buddiannau pobl ar amrywiaeth o faterion.

5.12 **Asesu'r BBC.** Fel rhan o'n cyfrifoldebau yn rheoleiddio'r BBC, byddwn yn asesu perfformiad y BBC ar gyfer gwylwyr yn yr Alban yn dilyn y flwyddyn lawn gyntaf o ddarlledu BBC Scotland, gan gynnwys asesu ei fod yn cydymffurfio â'r amodau yn Nhrwydded Weithredu'r BBC. Byddwn hefyd yn parhau i gyflawni ein dyletswyddau statudol yng nghyswllt MG ALBA a bwriadwn drwyddedu gwasanaethau radio digidol newydd ar raddfa fach yn yr Alban.

## Cymru

5.13 **Llywodraeth Cymru**. Yn unol â'n rhwymedigaethau yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Pwyllgorau ac Aelodau Senedd Cymru yn ogystal â Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru wrth gyflawni ein rhaglen waith 2020/21.

5.14 **Darlledu gwasanaeth cyhoeddus.** Byddwn yn gweithio gyda darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru i sicrhau cynaliadwyedd tymor hir darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn Gymraeg ac yn Saesneg, a bod cynnwys gwasanaeth cyhoeddus yn dal yn hawdd ei gael wrth i fwy o wylwyr wylio teledu ar-lein. Byddwn hefyd yn sicrhau bod pobl yng Nghymru yn cael pob cyfle i chwarae rhan lawn yn Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr, ein pedwerydd adolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus.

5.15 **Gwell darpariaeth symudol a band eang**. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i helpu gyda'r broses o ddod â gwasanaethau cyflym iawn i'r eiddo hynny yng Nghymru sydd heb fynediad. Ar ben hynny, byddwn hefyd yn ei helpu gyda'r nod o wella cysylltiadau llais a data symudol. Byddwn hefyd yn darparu cyngor i ddinasyddion ac i sefydliadau busnes ledled Cymru sy'n gweithio i wella darpariaeth a, phan fo'n briodol, rhannu gwybodaeth.

5.16 **Arloesedd 5G.** Byddwn yn annog partïon sydd â diddordeb i edrych ar ffyrdd arloesol o ddefnyddio 5G a thechnolegau sy'n cael eu datblygu, fel LoRaWan[17], yn y sector amaethyddol ac mewn cymunedau gwledig.

5.17 **Y Gymraeg.** Byddwn yn gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i hyrwyddo'r Gymraeg mewn ffordd briodol. Bydd ein hymdrechion yn canolbwyntio ar y meysydd hynny a fydd yn rhoi'r mwyaf o gyfleoedd i ddefnyddwyr ddefnyddio'r iaith ac a fydd yn cael yr effaith fwyaf.

5.18 **Radio lleol.** Byddwn yn monitro datblygu a chyflwyno gwasanaethau DAB ar raddfa fach ac yn helpu i sicrhau bod gorsafoedd radio cymunedol a masnachol llai yn gallu manteisio i'r eithaf ar y dechnoleg newydd hon.

## Gogledd Iwerddon

5.19 **Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon.** Byddwn yn cynnig cyngor rheoleiddio a thechnegol i adrannau Llywodraeth Gogledd Iwerddon a chynghorau lleol er mwyn cefnogi cyflwyno band eang ffeibr llawn drwy raglenni sy'n cael arian cyhoeddus, ac yn gweithio gyda'r diwydiant i hybu ehangu ffeibr llawn masnachol ymhellach.

5.20 **Ffonau symudol 5G**. Byddwn yn ymgysylltu â chwmnïau ffonau symudol ac awdurdodau lleol i sicrhau bod Gogledd Iwerddon yn elwa'n llawn o ddarparu gwasanaethau 5G.

5.21 **Cyd-drefnu yn Iwerddon.** Wrth i'r DU adael yr UE, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n cymheiriaid yng Ngweriniaeth Iwerddon, ComReg ac Awdurdod Darlledu Iwerddon er mwyn cydlynu a chynnal gwasanaethau cyfathrebu trawsffiniol.

## Lloegr

5.22 **Cymunedau lleol.** Ein nod ydy sicrhau bod ein polisïau'n ystyried yr holl gymunedau yn Lloegr. Bydd rhai materion yn dal yn bwysig, o ddarpariaeth symudol a'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol band eang i amrywiaeth darlledwyr ar y sgrin ac oddi ar y sgrin. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Llywodraeth, Aelodau Seneddol lleol ac awdurdodau lleol, yn ogystal â chymryd rhan mewn grwpiau fel y Bwrdd Buddsoddi mewn Ffeibr Llawn Lleol.

[17] Mae LoRaWan yn cyfeirio at dechnoleg rhwydwaith ardal eang a phŵer isel

# 6. Sicrhau gwerth am arian

## Byddwn yn parhau i ddarparu arbedion effeithlonrwydd ac arbedion arian

6.1 Ers Adolygiad Llywodraeth y DU o Wariant yn 2015 rydym wedi cyflawni arbedion termau real sy'n cyd-fynd â'r sector cyhoeddus. Mae Llywodraeth y DU yn gosod cap ar wariant cyllideb Ofcom. Ein nod yw bod yn rheoleiddiwr effeithiol ac effeithlon ar gyfer sector cyfathrebu sy'n symud yn gyflym.

6.2 Dros y cyfnod yma, ar sail debyg am debyg, mae ein cyllideb wedi aros yn wastad mewn termau arian parod (£115.7m), a chafodd ei haddasu ddim ond ar gyfer dyletswyddau ychwanegol yng nghyswllt y gwasanaeth cyffredinol band eang, seiberddiogelwch a'r BBC. Mae hyn yn 7% o ostyngiad mewn termau real. Mae Ofcom yn parhau i sicrhau gostyngiadau cyllidebol cyfatebol tebyg am debyg mewn termau real, a bydd yn parhau i fod yn fwy effeithlon pan fo'n bosibl.

## Cap gwariant ar gyfer 2020/21

6.3 Mae Llywodraeth y DU wedi gosod cap ar wariant cyllideb Ofcom. Ar gyfer 2020/21, rydym yn cynnig cap gwariant o £133.6m. Mae hyn yn cynnwys cynnydd o 2% i gyfrif am chwyddiant, capasiti ar gyfer ein cyfrifoldebau yn rheoleiddio'r BBC; gwaith ar y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol band eang; a seiberddiogelwch. Yn ogystal â hyn, rydym wedi gofyn am gynyddu'r cap er mwyn gosod y drefn reoleiddio newydd ar gyfer Llwyfannau Rhannu Fideos a chynyddu'r cap ar gyfer gwaith sy'n ymwneud â Gofynion Diogelwch Telegyfathrebu. Byddwn yn cadarnhau ein cyllideb yn fersiwn derfynol y Cynllun Gwaith.

6.4 Mae ein costau'n cael eu dyrannu i sectorau rhanddeiliaid a bydd y rhaniad yn cael ei gyhoeddi yn ein Tablau Tariffau ochr yn ochr â'r Cynllun Gwaith terfynol. Mae'r cynllun gwaith yn cael ei adlewyrchu yn y tariffau rydym wedi'u gosod, a does dim newid wedi bod yn y dull rydym wedi'i ddefnyddio i gyfrifo'r costau hyn.

## Sut byddwn yn rheoli ein hadnoddau yn 2020/21

6.5 Rydym yn parhau i adolygu sut rydym yn gweithio er mwyn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol. Pan fydd adnoddau'n brin, byddwn yn gwneud dewisiadau sy'n seiliedig ar ein blaenoriaethau a'n dyletswyddau statudol.

6.6 Mae ein hadnoddau a'n sgiliau'n cael eu hanelu at gyflawni ein cynlluniau a'n dyletswyddau drwy gynllunio strategol a drwy ddelio â'n cyllidebau a'n rhagolygon mewn ffordd integredig. Rydym yn adolygu blaenoriaethau, capasiti a galw yn rheolaidd i sicrhau ein bod yn gallu bodloni ein hamcanion. Rydym hefyd yn parhau i gynyddu ein harbedion effeithlonrwydd drwy ddefnyddio prosesau cystadleuol i sicrhau'r prisiau a'r ansawdd gorau gan ein cyflenwyr. Pan fydd angen buddsoddi, byddwn yn parhau i ddefnyddio

rheolaeth ariannol dynn i sicrhau bod yr adnoddau sydd gennym mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

6.7 Mae gwella ein swyddfeydd wedi arwain at amgylchedd gwaith sy'n fwy hyblyg ac ystwyth ar gyfer ein gweithlu ac mae wedi lleihau ein hôl troed yn Llundain. Yn y pen draw bydd hyn yn arwain at arbed o leiaf £3m y flwyddyn ar yr un pryd â darparu gweithle sy'n fwy addas ar gyfer cydweithio a gwella ein gallu i ymateb yn hyblyg yn ystod y flwyddyn.

# A1. Beth rydym yn ei wneud

A1.1 Pwrpas Ofcom yw sicrhau bod cyfathrebiadau'n bodloni pawb. Rydym yn rheoleiddio telegyfathrebiadau llinell sefydlog a symudol, teledu, radio, gwasanaethau fideo ar-alw, y post a'r tonnau awyr y mae dyfeisiau di-wifr yn eu defnyddio. Rydym yn helpu unigolion a busnesau yn y DU i gael y gorau o wasanaethau cyfathrebiadau ac yn eu diogelu rhag ymarfer niweidiol a rhag cael eu trin yn niweidiol. Lle bo'n briodol, rydym yn cefnogi cystadleuaeth fel sail ar gyfer sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr.

A1.2 Rydym yn gweithredu'n annibynnol ar Lywodraethau a buddiannau masnachol i gyflawni ein dyletswyddau. Fodd bynnag, rydym yn atebol i'r Senedd ac, i gyflawni ein rôl yn effeithiol, mae angen i ni ymgysylltu'n agored ac yn adeiladol gyda Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau datganoledig. Rydym yn darparu cyngor technegol i Lywodraethau (er enghraifft, ein gwaith ar weithredu darparwr gwasanaeth cyffredinol band eang yn y DU) ac, mewn rhai achosion, rydym yn gweithredu fel cynrychiolydd ffurfiol Llywodraeth y DU (er enghraifft, mewn trafodaethau rhyngwladol ar sbectrwm).

## Ein prif ddyletswydd yw hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr

A1.3 Sefydlwyd Ofcom gan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, ac mae'n gweithredu'n unol â nifer o Ddeddfau Seneddol.[18] Dywed Deddf Cyfathrebiadau 2003 mai ein prif ddyletswydd yw hybu buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion yn ymwneud â chyfathrebiadau a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hyrwyddo cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol. Gyda gwasanaethau post, ein dyletswydd yw cyflawni ein swyddogaethau mewn ffordd a fydd, yn ein barn ni, yn diogelu'r gwasanaeth post cyffredinol yn y DU. Rydym yn gweithredu ac yn gorfodi cyfreithiau'n ymwneud â diogelu defnyddwyr, cyfathrebiadau a chystadleuaeth; mae ein pwerau cystadleuaeth yn cael eu hamlinellu yn nes ymlaen yn yr adran hon.

## Ein prif ddyletswyddau cyfreithiol sy'n tywys cyfeiriad ein gwaith

A1.4 Ein prif ddyletswyddau cyfreithiol yw:

- sicrhau bod gan y DU amrywiaeth eang o wasanaethau cyfathrebu electronig;
- sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o'r sbectrwm radio;
- sicrhau bod amrywiaeth eang o raglenni radio a theledu o ansawdd da yn cael eu darparu gan nifer o sefydliadau gwahanol, gan apelio at amrywiaeth o ddiddordebau a chwaethau;
- sicrhau bod pobl yn cael eu diogelu rhag deunydd niweidiol neu dramgwyddus, triniaeth annheg, ac ymyrraeth ar breifatrwydd ar y radio a'r teledu;

[18] Mae'r rhain yn cynnwys Deddf Cyfathrebiadau 2003, Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006, Deddfau Darlledu 1990 a 1996, Deddfau yr Economi Ddigidol 2010 a 2017 a Deddf Gwasanaethau Post 2011.

- mae'r BBC yn cael ei ddal i gyfrif am ei gydymffurfiad â safonau cynnwys priodol, ei berfformiad yn erbyn ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus, ac effaith ei weithgareddau ar gystadleuaeth deg ac effeithiol; a
- sicrhau bod y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol ar wasanaethau post yn cael ei diogelu yn y DU.

A1.5 Gall Ofcom orfodi cyfraith defnyddwyr ar ran defnyddwyr ond nid oes ganddo'r pŵer i ddatrys cwynion defnyddwyr unigol ynghylch gwasanaethau post a thelegyfathrebiadau, yn wahanol i'w bwerau gyda theledu a radio. Pan fo'n briodol, rydym yn darparu cyngor i'r rhai sy'n cwyno ac yn eu cyfeirio at gynlluniau dulliau amgen o ddatrys anghydfod (ADR) yr ydym wedi'u cymeradwyo.

## Pwerau Ofcom o dan y gyfraith cystadleuaeth

A1.6 Yn ogystal â'n cyfrifoldebau rheoleiddio a nodir uchod, mae gennym bwerau yng nghyswllt materion cyfathrebiadau i:

- orfodi gwaharddiadau ar gytundebau gwrthgystadleuol a'r camddefnydd o safle goruchafol, fel y nodir yn Neddf Cystadleuaeth 1998, a'r darpariaethau cyfatebol o dan y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd; ac
- ymchwilio i farchnadoedd a chyfeirio materion o dan Ddeddf Menter 2002 at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA).

A1.7 Bydd Ofcom yn ystyried a yw'n fwy priodol arfer pwerau'r Ddeddf Cystadleuaeth neu'r pwerau sectoraidd mewn unrhyw achos penodol, yn amodol ar ofynion deddfwriaethol penodol.

# A2. Gwaith Prosiect ar gyfer 2020/21

A2.1 Isod, rydym yn nodi ein rhaglen waith ar gyfer 2020/21. Rydym yn darparu manylion am y prosiectau sy'n sail i'n meysydd gwaith blaenoriaeth.

## Darpariaeth band eang a symudol gwell – lle bynnag fyddwch chi

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
|---|---|
| **Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol Band Eang (USO).** Byddwn yn gweithredu'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol band eang. Mae Ofcom wedi dynodi dau Ddarparwr Gwasanaeth Cyffredinol i ddarparu'r gwasanaeth; wedi sefydlu'r rhwymedigaethau y mae'n rhaid i'r Darparwyr Gwasanaeth Cyffredinol eu diwallu er mwyn cyflawni'r cynllun yn unol â'r ddeddfwriaeth; ac wedi llunio cynigion i bennu sut gellid gwneud iawn am y costau a gaiff Darparwyr Gwasanaeth Cyffredinol. Bydd defnyddwyr yn gallu dechrau gofyn am y gwasanaeth o fis Mawrth 2020 ymlaen. Rydym hefyd yn parhau â'n gwaith yn fwy cyffredinol i wella'r mynediad at wasanaethau band eang yn yr ardaloedd anoddaf eu cyrraedd a'r ardaloedd mwyaf anghysbell a deall sut bydd anghenion pobl ar gyfer cysylltedd yn y dyfodol yn esblygu. | Datganiad ar reoliadau cyllido<br>Ch1 2020/21 |
| **Adolygiad o'r Farchnad Telegyfathrebiadau Sefydlog Gyfanwerthol.** Byddwn yn cyhoeddi ein prif ymgynghoriad ynghylch ein cynigion ar gyfer gwasanaethau telegyfathrebiadau sefydlog ar ddechrau 2020, ac rydym yn bwriadu cyhoeddi ein Datganiad terfynol yn Ch4 2020/21.**.** Bydd hyn yn cynnwys cysylltiadau llais/band eang cyfanwerthol a llinellau cyfanwerthol ar brydles. Rydym yn awyddus i sefydlu fframwaith rheoleiddio i hyrwyddo cystadleuaeth rhwydwaith pan fydd modd, darpariaeth rhwydwaith gwibgyswllt a galluogi'r rhwydwaith copr blaenorol i gael ei ddisodli'n llyfn gan wasanaethau ffeibr. Bydd unrhyw iawn yn dod i rym o fis Ebrill 2021 ymlaen. | Datganiad<br>Ch4 2020/21 |
| **Galwadau Cyfanwerthol a Rhyng-gysylltu.** Byddwn yn cynnal y rownd nesaf o adolygiadau o'r farchnad ar gyfer terfynu galwadau sefydlog, symudol a 070, tarddiad galwadau sefydlog ac adolygu rhwymedigaethau o un pen i'r llall. Fel rhan o'r adolygiad hwn byddwn yn ystyried beth sydd ei angen i helpu i symud o wasanaethau traddodiadol PSTN (rhwydwaith ffôn cyfnewidfa gyhoeddus) i VoIP (protocol llais dros y rhyngrwyd), gan gynnwys trefniadau ar gyfer Rhyng-gysylltu. Byddwn yn ymgynghori ynghylch ein cynigion ffurfiol yn Ch1 2020/21. Mae'n debyg y daw unrhyw newidiadau i'r rheoleiddio i rym o fis Ebrill 2021 ymlaen. | Ymgynghoriad<br>Q1 2020/21<br><br>Datganiad<br>Ch4 2020/21 |

| | |
|---|---|
| **Rheoleiddio telegyfathrebiadau yn ardal Hull. Byddwn yn ymgynghori ynghylch ein cynigion ar gyfer gwasanaethau telegyfathrebiadau sefydlog yn ardal Hull yn Ch4 2019/2020, ac rydym yn bwriadu cyhoeddi ein Datganiad terfynol yn Ch4 2020/21.** Bydd hyn yn berthnasol i bob un o'r marchnadoedd llais cyfanwerthol/band eang a llinellau ar brydles. Bydd unrhyw iawn yn dod i rym o fis Ebrill 2021 ymlaen. | Datganiad<br>Ch4 2020/21 |
| **Dyfarnu bandiau sbectrwm wrth iddynt gael eu clirio a'u rhyddhau.** Byddwn yn dyfarnu bandiau sbectrwm wrth iddyn nhw gael eu clirio a'u rhyddhau. Byddwn yn ystyried yr ymatebion i'n cynigion ar gyfer dyfarnu bandiau sbectrwm 700 MHz a 3.6-3.8 GHz. Byddwn yn dod i gasgliad gyda phenderfyniad ynghylch sut mae bwrw ymlaen â´r dyfarniad a bydd hyn wedi'i nodi mewn Datganiad, gyda golwg ar gwblhau'r dyfarniad yn gynnar yn Haf 2020. | Arwerthiant<br>Ch1 2020/21 |
| **Rhaglen 700 MHz.** Byddwn yn parhau i weithio i glirio gwasanaethau teledu daearol digidol oddi ar y band 700 MHz er mwyn rhyddhau'r sbectrwm hwn ar gyfer data symudol. Byddwn yn parhau i weinyddu cynllun grantiau i ariannu'r costau ychwanegol a gaiff darlledwyr o ganlyniad i'r newidiadau mewn seilwaith sy'n gysylltiedig â chlirio 700 MHz. Ein cynllun ydy sicrhau bod y band 700 MHz ar gael i wasanaethau symudol erbyn mis Mai 2020. | Ionawr 20 - Diweddariad ar 700 MHz CP<br>Ebrill 20 - Diweddariad terfynol ar 700 MHz CP |
| **Galluogi rhagor o sbectrwm ar gyfer gwasanaethau symudol gan gynnwys gwasanaethau 5G.** Byddwn ni'n ymgysylltu'n rhyngwladol, ar lefel Ewropeaidd ac yn fyd-eang, i sicrhau bod yr amodau technegol ar gyfer y bandiau sbectrwm blaenoriaeth yn briodol ar gyfer gwasanaethau symudol, gan gynnwys gwasanaethau 5G. Byddwn ni'n parhau â'n gwaith i ddeall y galw am sbectrwm yn y dyfodol. | Ymgynghoriad<br>Q1 2020/21 |

| | |
|---|---|
| **Gwella darpariaeth symudol.** Byddwn yn parhau i gefnogi'r Llywodraeth a'r gweithredwyr symudol i gyflawni'r cynnig o Rwydwaith Gwledig a Rennir, a phan fydd y rhwymedigaethau trwyddedau sy'n rhwymo mewn grym, byddwn yn adrodd yn gyhoeddus ar gynnydd y gweithredwyr symudol o ran gwella'r ddarpariaeth. Rydym yn gweithredu er mwyn galluogi atebion ar sail sbectrwm y gellid eu defnyddio i wella darpariaeth dan do ac mewn cymunedau gwledig. Bydd hyn yn cynnwys eithrio dyfeisiau mwyhau ar gyfer ffonau symudol o drwydded, lle byddwn yn cyflwyno cynigion i'w hymestyn i ragor o fandiau amledd, gan gynnwys technolegau eraill (ee 5G) a chael gwared ar gyfyngiadau diangen. Byddwn hefyd yn edrych ar opsiynau ar gyfer eithrio celloedd femto nifer o weithredwyr o drwydded. Bydd y naill beth a'r llall yn helpu defnyddwyr sydd â darpariaeth ffôn symudol wael ar hyn o bryd yn eu cartrefi i wella'r signal symudol eu hunain, heb fod angen i'r gweithredwr gamu i mewn. Byddwn hefyd yn edrych ar atebion technoleg arloesol i wella darpariaeth symudol mewn ardaloedd gwledig. | Ymgynghoriad (dyfeisiau mwyhau ar gyfer ffonau symudol)<br>Ch3 2020/21 |
| **Rhannu sbectrwm**: Byddwn yn edrych ar ddefnyddio dull awdurdodi wedi'i awtomeiddio er mwyn cael mynediad i'r bandiau a rennir er mwyn sicrhau bod y sbectrwm sy'n cael ei rannu'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon. | Parhaus |
| **Mesur perfformiad band eang symudol.** Byddwn yn dadansoddi data torfol i archwilio sut mae perfformiad rhwydwaith symudol yn amrywio yn ôl ystod o ffactorau gan gynnwys technoleg, gweithredwyr rhwydwaith symudol, daearyddiaeth ac amser o'r dydd. | Adroddiad<br>Ch3 2020/21 |
| **Strategaeth rheoli  sbectrwm.** Byddwn yn adolygu ac yn diweddaru ein strategaeth rheoli sbectrwm ac yn sefydlu cynllun ar gyfer gweithredu newidiadau. | Datganiad Eithrio dros 100 GHz<br>Ch1 2020/21<br><br>Strategaeth Sbectrwm Datganiad<br>Ch3 2020/21 |
| **Adroddiadau ariannol rheoleiddiol yn y dyfodol.** Byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniadau terfynol mewn perthynas â rhwymedigaethau BT o ran adroddiadau ariannol sy'n codi o'r Adolygiad o'r Farchnad Telegyfathrebiadau Sefydlog Gyfanwerthol. | Datganiad<br>Ch4 2020/21 |

## Tegwch i gwsmeriaid

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Ymrwymiadau Tegwch i Gwsmeriaid.** Byddwn yn parhau i fonitro perfformiad cwmnïau yn erbyn yr ymrwymiadau hyn. Byddwn hefyd yn cyhoeddi adroddiad cynnydd y flwyddyn nesaf, gan gynnal adolygiad i weld a yw cwmnïau'n cyflawni'r hyn maen nhw wedi'i addo. Mae hyn ochr yn ochr â'n hadroddiadau rheolaidd ar gwynion a bodlonrwydd cwsmeriaid. | Adroddiad<br>Ch3 2020/21 |
| **Arferion prisio gwahaniaethol band eang.** Rydym yn parhau i weithio i sicrhau bod rhagor o gwsmeriaid band eang yn cael cytundebau teg. Byddwn yn monitro'r canlyniadau i gwsmeriaid ar ôl i'r ymrwymiadau prisio gwirfoddol ddod i rym yn y diwydiant. | Casgliadau terfynol<br>Ch4 2019/20 |
| **Tariffau cymdeithasol.** Byddwn yn parhau i adolygu fforddiadwyedd band eang ac i ystyried a ddylid cyflwyno tariffau cymdeithasol. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn gweithio gyda'r Llywodraeth i ystyried sut gellid gweithredu tariff o'r fath, gan gynnwys unrhyw newidiadau deddfwriaethol priodol. | Cyhoeddiad<br>Ch1 2020/21 |
| **Newid ar y cyd.** Byddwn yn ystyried yr achos dros fynnu bod darparwyr yn cymryd rhan mewn treial i newid cyflenwr ar y cyd a fydd wedi'i lunio i helpu'r cwsmeriaid sy'n ymgysylltu lleiaf, gan gynnwys cwsmeriaid agored i niwed. | Parhaus |
| **Gwybodaeth i ddefnyddwyr am fand eang gwibgyswllt / sy'n gallu delio â gigabits.** I sicrhau bod gan bobl a busnesau'r wybodaeth iawn i wneud penderfyniadau doeth ynghylch y gwasanaethau band eang sydd orau iddynt; rydym yn ystyried a fyddent yn elwa o ragor o wybodaeth am nodweddion a galluoedd technolegau band eang sefydlog a symudol gwibgyswllt / sy'n gallu delio â gigabits, a sut y dylid cyfleu hynny iddynt. | Parhaus |
| **Monitro effaith hysbysiadau diwedd contract a hysbysiadau blynyddol am y tariffau gorau.** O fis Chwefror 2020 ymlaen, bydd yn rhaid i gwmnïau band eang, symudol, llinell dir a theledu drwy dalu ddweud wrth gwsmeriaid pan fydd eu contractau'n dod i ben a dangos iddynt y bargeinion gorau sydd ar gael iddynt. Bydd cwsmeriaid sydd y tu allan i gontract hefyd yn cael neges i'w hatgoffa ac yn cael gweld y bargeinion gorau bob blwyddyn. Rydym yn disgwyl i'r hysbysiadau hyn gael effaith gadarnhaol fawr o ran helpu cwsmeriaid i ymgysylltu â'r farchnad a manteisio ar y dewis eang o gynigion sydd ar gael. Byddwn yn adolygu sut mae darparwyr yn gweithredu'r hysbysiadau hyn, a'u heffaith ar ymddygiad cwsmeriaid. | Parhaus |

| | |
|---|---|
| **Cyfranogiad a bregusrwydd.** Rydym yn gweithio i gefnogi anghenion a buddiannau'r rheini sy’n anabl, yn oedrannus, ar incwm isel neu’n byw mewn ardaloedd gwledig, yn ogystal â'r rheini y mae’n ymddangos bod eu hamgylchiadau’n golygu bod angen eu hamddiffyn yn arbennig. Byddwn yn cwblhau ein canllaw ar sut i drin defnyddwyr agored i niwed yn deg ac yn cyfrannu at waith polisi ar y cyd â Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU i wella’r canlyniadau i ddefnyddwyr agored i niwed. | Parhaus |
| **Cyfathrebu Agored.** Rydym yn llunio cynigion ar gyfer Cynllun Cyfathrebu Agored. Byddai hyn yn galluogi pobl a busnesau bach i rannu data am eu defnydd o wasanaethau telathrebu (fel eu tariff presennol neu eu defnydd data) gyda thrydydd partïon i’w helpu i ddatgloi’r farchnad a chael bargen well. | Ymgynghori ar Gyfathrebu Agored<br>Ch1 2020/21 |
| **Prisiau personol.** Byddwn yn cyhoeddi dogfen drafod ar brisiau personol, gan gynnwys defnyddio data ac algorithmau sy’n cefnogi’r arferion hyn. | Dogfen drafod<br>Ch1 2020/21 |
| **Cynllun Achredu Prisiau.** Byddwn yn cwblhau ein hadolygiad o’n cynllun achredu ar gyfer gwefannau cymharu prisiau i sicrhau ei fod yn parhau i weithio i ddefnyddwyr yn y farchnad fodern, ac i sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag amcanion y Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd. | Datganiad<br>Ch1 2020/21 |
| **Adrodd ar batrymau prisio.** Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar batrymau prisio gwasanaethau sefydlog, symudol a theledu drwy dalu. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o'r prisiau sydd ar gael i ddefnyddwyr sy'n prynu mathau gwahanol o wasanaethau a chrynodeb o beth mae defnyddwyr, ar gyfartaledd, yn ei dalu. Bydd hefyd yn edrych ar strwythurau tariff a sut mae prisiau gyda ‘disgownt’ yn amrywio o brisiau safonol neu brisiau ‘rhestr’, yn ogystal â’r gwahaniaeth rhwng prisiau mewn-contract a phrisiau y tu allan i gontract. | Cyhoeddiad<br>Ch3 2020/21 |
| **Adolygiad o'r Amodau Cyffredinol a’r Amodau Gwasanaeth Cyffredinol i weithredu’r Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd.** Byddwn yn cadarnhau ein cynlluniau ar gyfer rhoi’r adran am hawliau defnyddwyr ar waith o’r Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd yng nghyd-destun ein rhaglen waith ehangach ar Degwch i Gwsmeriaid. Rydym wedi nodi nifer o newidiadau arfaethedig i’n rheolau rheoleiddio, gan gynnwys rheolau newydd ar newid a chludo rhifau, cloi ffonau, hygyrchedd i gwsmeriaid anabl, a gwybodaeth am gontractau. Rydym hefyd yn bwriadu cynnal adolygiad o hen rwymedigaethau’r gwasanaeth cyffredinol. Rhaid cwblhau hyn erbyn Rhagfyr 2021. | Datganiad EECC<br>Ch1 2020/21<br><br>Ymgynghoriad ar y broses newid darparwr<br>Ch1 2020/21<br><br>Datganiad ar y broses newid darparwr<br>Ch2 2020/21 |

| | |
|---|---|
| | Ymgynghoriad ar hen wasanaethau rhwymedigaethau'r gwasanaeth cyffredinol. Ch4 2020/21 |
| **Gwella'r wybodaeth i ddefnyddwyr ynghylch darpariaeth sefydlog a symudol a pherfformiad.** Rydym yn parhau i ddarparu gwybodaeth gywir y gellir ei chymharu i ddefnyddwyr am rwydweithiau sefydlog a symudol drwy ein gwiriwr ar-lein. Rydym yn edrych ar yr opsiynau i wella ymarferoldeb yr offer hyn ar gyfer defnyddwyr i sicrhau eu bod yn aros yn berthnasol ac yn hygyrch. Byddwn yn parhau i gadw golwg ar ba mor ystyrlon yw hyn i'r bobl fydd yn defnyddio'r wybodaeth y byddwn yn ei darparu a byddwn yn cymryd camau i wella ein metrigau pan fydd angen. | Parhaus |
| **Mudo i wasanaethau protocol llais dros y rhyngrwyd:** Byddwn yn gweithio gyda darparwyr cyfathrebiadau i helpu i sicrhau bod y materion a godwyd drwy eu mudo i wasanaethau protocol llais dros y rhyngrwyd, gan gynnwys posibilrwydd diffodd y Rhwydwaith Ffôn Cyfnewidfa Gyhoeddus yn y dyfodol, yn cael eu hadnabod ac yn cael sylw gyda'r nod o ddiogelu defnyddwyr rhag niwed ac amharu cyn lleied â phosibl arnyn nhw. | Parhaus |
| **Prisiau tecach am ffonau symudol.** Rydym yn parhau i weithio i sicrhau prisiau tecach a mwy tryloyw i gwsmeriaid sy'n prynu contractau ffôn symudol. Ym mis Gorffennaf 2019, ochr yn ochr â'n canfyddiadau ar gontractau ffonau symudol wedi'u bwndelu, fe wnaethom hefyd ymgynghori ar gynigion i ddefnyddio cyfyngiad o 24 mis ar gontractau ffonau symudol sy'n cael eu gwerthu gyda chysylltiad â chontract amser sgwrsio (a elwir yn 'gontractau cysylltiedig wedi'u hollti'). Byddwn yn parhau â'n gwaith ar hyn ac yn cwblhau ein cynigion fel rhan o'r Adolygiad o'r Amodau Cyffredinol a'r Amodau Gwasanaeth Cyffredinol i weithredu'r Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd. | Datganiad Ch1 2020/21 |
| **Gwasanaethau llinell dir annibynnol.** Roedd BT wedi gostwng y pris i'w gwsmeriaid a oedd yn prynu gwasanaethau llinell dir mewn contract annibynnol ym mis Ebrill 2018. Mae ei ymrwymiadau'n dod i ben ym mis Mawrth 2021 a byddwn yn ystyried pa fesurau diogelu | Dogfen i'w chyhoeddi Ch3 2020/21 |

| | |
|---|---|
| priodol sydd eu hangen wrth symud ymlaen er mwyn sicrhau bod y cwsmeriaid hyn yn cael gwerth am arian ar gyfer y gwasanaethau llinell maent yn eu prynu. | |
| **Taliadau ar rifau nad ydynt yn rhai daearyddol.** Byddwn yn dechrau adolygiad o daliadau mynediad ar gyfer galwadau nad ydynt yn rhai daearyddol (gan gynnwys rhifau 084, 087, 09 a 118) i asesu a yw'r taliadau hyn yn codi unrhyw bryderon o ran tegwch i gwsmeriaid ac yn ystyried opsiynau i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu'n briodol rhag sioc biliau posib. Byddwn yn cynnal yr adolygiad hwn ochr yn ochr â'n Hadolygiad o Bolisi Rhifo yn y Dyfodol. | Ymgynghoriad Ch3 2020/21 |
| **Adolygiad o Bolisi Rhifo yn y Dyfodol.** Byddwn yn parhau â'n hadolygiad strategol o'r cynllun rhifau ffôn i sicrhau ei fod yn darparu'r hyn mae defnyddwyr yn ei ddeall, a'r hyn mae arnyn nhw ei eisiau a'i angen gan rifau ar gyfer y degawd nesaf. Yn benodol, byddwn yn ystyried dyfodol codau ardal, rhifau 084/087 ac yn bwrw ymlaen â'n rhaglen i fynd i'r afael ag anghysondebau mewn prisiau galwadau i rifau 07 a'r defnydd ohonynt. Byddwn yn gwneud y gwaith hwn ochr yn ochr â'n hadolygiad o'r costau ar gyfer rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol. | Parhaus |

## Cefnogi darlledu yn y DU

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
|---|---|
| **Rhaglenni darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus: Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr.** Byddwn yn ystyried rôl darlledu gwasanaeth cyhoeddus mewn tirwedd cyfryngau sy'n newid yn gyflym drwy hwyluso 'Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr' gyda'r diwydiant, Llywodraeth, y Senedd Brydeinig, gwylwyr a gwrandawyr. | Ymgynghoriad H1 2020/21 |
| **Adroddiad blynyddol Ofcom ar y BBC.** Byddwn yn nodi sut rydym wedi cynnal ein dyletswyddau ac yn asesu cydymffurfiad y BBC â'r gofynion penodol yn y Fframwaith Gweithredu a'r Drwydded Weithredu. Byddwn yn hefyd cyhoeddi adroddiad yn mesur perfformiad y BBC o ran cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus ar draws ei wasanaethau cyhoeddus. | Adroddiad Ch3 2020/21 |
| **Newidiadau sylweddol i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC.** Byddwn yn parhau i fonitro gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC i sicrhau bod unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu craffu'n briodol o ran rheoleiddio. | Parhaus |
| **Monitro gweithgareddau masnachol y BBC.** Mae'n rhaid i weithgareddau masnachol y BBC wneud elw masnachol dros gyfnod priodol er mwyn sicrhau na fydd arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i dalu am weithgareddau masnachol sy'n gwneud | Parhaus |

| | |
|---|---|
| colled. Mae'n rhaid i'r BBC adrodd ar berfformiad ariannol a chyfraddau elw pob un o'i is-gwmnïau masnachol a phob llinell busnes yn ei is-gwmnïau masnachol. | |
| **Adolygiad o BBC Studios.** Rydym wedi lansio adolygiad o esblygiad BBC Studios, gan gynnwys sut mae wedi gweithredu ein gofynion Masnachu a Gwahanu. Byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch ein canfyddiadau drwy gydol y flwyddyn. | Adroddiad Ddiwedd 2020 |
| **Ymateb i Ddatganiad Polisi Cyfryngau blynyddol Corfforaeth Channel 4:** Byddwn yn cyhoeddi ein hymateb i sut bydd Channel 4 yn cyflawni ei gynlluniau a'i ddyletswyddau cynnwys cyfryngau ar gyfer y flwyddyn ganlynol, fel y nodir yn ei ddatganiad. | Adroddiad Ch1 2020/21 |
| **Adrodd ar lythrennedd oedolion yn y cyfryngau.** Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar Agweddau Oedolion a'u Defnydd o Gyfryngau, gan edrych ar lythrennedd yn y cyfryngau ymysg oedolion y DU. Bydd yn cynnwys data ar ddefnydd, agweddau a dealltwriaeth oedolion 16 oed a hŷn yng nghyswllt cyfryngau, a sut mae'r rhain yn newid dros amser. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar y Cyfryngau ym Mywyd Oedolion, gan roi manylion canfyddiadau ein gwaith ymchwil ansoddol, hydredol, ethnograffig ar raddfa fach ymysg oedolion y DU – a fydd yn ategu ein harolygon meintiol ar lythrennedd oedolion yn y cyfryngau. | Adroddiad Ch1 2020/21 |
| **Adrodd ar lythrennedd plant yn y cyfryngau.** Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar Agweddau a Defnydd Plant o Gyfryngau, gan roi tystiolaeth am ddefnyddio'r cyfryngau, agweddau a dealltwriaeth ymhlith plant a phobl ifanc 5-15 oed, yn ogystal â gwybodaeth am fynediad i'r cyfryngau a defnydd ymhlith plant 3-4 oed. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys safbwyntiau rhieni am ddefnydd eu plant o gyfryngau, a'r ffyrdd mae rhieni yn monitro neu'n cyfyngu ar ddefnyddio gwahanol fathau o gyfryngau. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar y Cyfryngau ym Mywyd Plant, gan roi manylion canfyddiadau ein gwaith ymchwil ansoddol, hydredol, ethnograffig ar raddfa fach ymysg plant a phobl ifanc – a fydd yn ategu ein harolygon meintiol ar lythrennedd plant yn y cyfryngau. | Adroddiad Ch4 2020/21 |
| **Radio cymunedol analog.** Byddwn yn gwneud y gwaith cynllunio sbectrwm angenrheidiol i gynyddu'r mynediad ar gyfer radio cymunedol a chefnogi'r bedwaredd rownd o drwyddedu ar gyfer radio cymunedol analog. | Parhaus |

| | |
|---|---|
| **DAB ar raddfa fach.** Byddwn yn datblygu cynlluniau ar gyfer gweithredu a thrwyddedu DAB ar raddfa fach, gyda disgwyl i Ofcom hysbysebu'r trwyddedau amlblecs cyntaf yn gynnar yn 2020. | Parhaus |
| **Polisi a rheoleiddio hysbysebion.** Mae'r Llywodraeth wedi ymgynghori ar gyfyngiadau ychwanegol ar hysbysebion teledu ar gyfer bwyd a diod sydd â llawer o fraster, halen a siwgr (HFSS), gan gynnwys gwaharddiad cyn 9 o'r gloch, disgwylir datganiad maes o law. Petai cyfyngiadau llymach yn cael eu cyflwyno, byddai'n rhaid i Ofcom a'i gyd-reoleiddwyr (BCAP ac ASA) weinyddu hyn. | Yn amodol ar ymgynghoriad/datganiad gan y Llywodraeth. |

## Sicrhau bod cyfathrebiadau ar-lein yn gweithio i ddefnyddwyr a busnesau

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
|---|---|
| **Cynnwys ac ymddygiad niweidiol.** Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r Llywodraeth a rhanddeiliaid yn y diwydiant, y byd academaidd a'r trydydd sector ynghylch cynlluniau i reoleiddio niwed ar-lein. | Parhaus |
| **Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau.** Byddwn yn parhau â'n gwaith i helpu i wella sgiliau ar-lein, gwybodaeth a dealltwriaeth oedolion a phlant yn y DU drwy ddarparu ymchwil cadarn a chydweithrediad gyda/cydlynu rhanddeiliaid perthnasol a'u gweithgareddau. | Digwyddiad MSOM allanol<br>Ch2 2020/21 |
| **Rheoleiddio llwyfannau rhannu fideos.** Mae'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol (AVMSD) newydd yn cyflwyno gofynion ar gyfer llwyfannau rhannu fideos i ddiogelu plant rhag cynnwys a allai fod yn niweidiol ac i ddiogelu'r cyhoedd rhag deunydd anghyfreithlon a deunydd sy'n cymell casineb neu drais. Mae'r Llywodraeth wedi cynnig bod Ofcom yn cyflawni rôl rheoleiddio dros-dro ar gyfer y llwyfannau rhannu fideos hyd nes y penodir rheoleiddiwr niwed ar-lein penodol yn y dyfodol. Byddwn yn amlinellu'r cerrig milltir ar ôl cadarnhau hyn. | Trosi AVMSD<br>Ch2 2020/21 |
| **Gwasanaethau Cyfathrebu Rhyngbersonol sy'n Annibynnol ar Rifau (NIICS).** Byddwn yn cynnal ac yn cyhoeddi ymchwil i ddeall y gwasanaethau sy'n creu'r farchnad NIICS, yn ogystal â phrofiad defnyddwyr o'r rhain, yng nghyd-destun darpariaethau newydd o dan y Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd a ddaw i rym ym mis Rhagfyr 2020. | Canfyddiadau'r ymchwil<br>Ch1 2020/21 |

## Galluogi rhwydweithiau cryf a diogel

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
|---|---|
| **Adeiladu gallu seiberddiogelwch; parhau i sicrhau bod darparwyr cyfathrebiadau a gweithredwyr gwasanaethau hanfodol yn rheoli risgiau diogelwch.** Byddwn yn parhau i ymgysylltu â darparwyr cyfathrebiadau i gyflawni'r cynllun TBEST (sef profion treiddio bygythiadau sy'n seiliedig ar wybodaeth). Byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant i ganfod bylchau mewn safonau ac arferion gorau ac yn arwain cynlluniau i gau'r bwlch. | Parhaus |
| **Rhaglen ar gyfer Diogelwch a Gwytnwch Rhwydwaith.** Byddwn yn darparu cymorth strategol a gweithredol ar gyfer diogelwch a gwytnwch rhwydweithiau a mynediad ar frys. | Parhaus |

## Cynnal y gwasanaeth post cyffredinol

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
|---|---|
| **Adolygu Anghenion Defnyddwyr.** Byddwn yn archwilio'r ymchwil i anghenion defnyddwyr ac yn asesu a yw'r farchnad gwasanaethau post yn bodloni anghenion rhesymol defnyddwyr post. | Adroddiad yn 2020 |
| **Adolygu'r fframwaith rheoleiddio post ar gyfer y dyfodol.** Yn 2017, fe wnaethom ddweud y dylai'r dull o reoleiddio'r gwasanaeth post a sefydlwyd yn 2012 barhau mewn grym tan 2022. Yn ystod 2019/20, rydym wedi bod yn cynnal nifer o brosiectau sy'n ffurfio'r blociau adeiladu ar gyfer adolygiad 2022. Mae hyn yn cynnwys adolygiad o anghenion defnyddwyr, asesiad o'r farchnad parseli, modelu costau o'r gwaelod i fyny ac adolygu effeithlonrwydd y Post Brenhinol. Yn ystod 2020/21, byddwn yn dod â'r holl waith hwn ynghyd dan yr adolygiad cyffredinol hwn. Bydd angen mwy o ddarnau o waith: ee adolygu cystadleuaeth mynediad ac a oes angen mesurau diogelu ychwanegol ar gyfer defnyddwyr. | Daw i ben yn 2022 |

## Parhau i arloesi o ran sut rydym yn rheoleiddio i helpu defnyddwyr a busnesau

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
|---|---|
| **Canolfan Arloesi Data.** Byddwn yn datblygu tîm canolog i gyfrannu at raglenni gwyddoniaeth data ac i gefnogi cydweithwyr o gwmpas y sefydliad sydd â diddordeb mewn cynyddu'r wybodaeth a'r effeithlonrwydd a geir o weithgareddau sy'n ymwneud â data. | Parhaus |

| | |
|---|---|
| Bydd hyn yn gwella ein hadnoddau a'n prosesau ar gyfer cefnogi datblygu polisïau. | |
| **Profi dull newydd i wella sut caiff rhifau ffôn y DU eu rheoli a gwella'r ymddiriedaeth mewn rhifau ffôn.** Mae cludo rhifau yn galluogi defnyddwyr i newid darparwr gwasanaeth gan gadw eu rhif, sy'n arwain at ddewis a chystadleuaeth effeithiol heb gost neu anhwylustod. Ar ôl cydweithio'n llwyddiannus â'r diwydiant, profi defnyddio technoleg cadwyn atal arloesol fel dull o reoli rhifau sy'n addas yn y dyfodol, byddwn yn nodi ein cynigion cychwynnol ar gyfer ateb strategol i gludo rhifau, er mwyn rhoi sylw i lwybro galwadau aneffeithiol a lefel y methiannau mewn cludo rhifau busnes. | Ymgynghoriad Q1 2020/21 |
| **Treial i roi'r gorau i gopr yng Nghaersallog.** Byddwn yn cefnogi treial Ofcom i roi'r gorau i gopr yng Nghaersallog, drwy ddefnyddio ein pŵer cynnull i gefnogi'r treial i ddiogelu defnyddwyr agored i niwed a defnyddwyr gwasanaethau arbennig, er mwyn i'r gwersi a ddysgir o'r treial allu cefnogi buddsoddiad ehangach mewn rhwydweithiau newydd. | Parhaus |
| **Perfformiad o ran Delio â Galwadau Brys** Byddwn yn adolygu ac yn cynnig gwell galluoedd ar gyfer delio â galwadau brys, fel bod gan ddefnyddwyr a dinasyddion ffydd yn eu gallu i gysylltu â'r gwasanaethau brys mewn argyfwng. | Parhaus |
| **Arloesedd mewn dulliau gweithredu rheoleiddio.** Byddwn yn cydlynu gwaith arloesol Ofcom ac yn dod o hyd i gyfleoedd newydd i arloesi pan fyddwn yn rheoleiddio. | Parhaus |

## Cynyddu amrywiaeth a chynhwysiant

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
|---|---|
| **Adroddiad Amrywiaeth a Chynhwysiant.** Roeddem wedi cyhoeddi ein hadroddiad cynnydd cyntaf ar ein Rhaglen Amrywiaeth a Chynhwysiant pedair blynedd ym mis Gorffennaf 2019. Mae ein rhaglen amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer y cyfnod 2018-2022 yn amlinellu ein Cynllun Gweithredu, gan gynnwys adroddiad manwl o'n hamcanion a'n rhaglen waith, fel cyflogwr ac fel rheoleiddiwr cyfathrebiadau'r DU. Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar amrywiaeth. Mae'r adroddiad yn ein helpu i benderfynu beth yw ein blaenoriaethau a'n hamcanion strategol o ran amrywiaeth a chynhwysiant yn y flwyddyn i ddod. Mae'n edrych ar broffil amrywiaeth cydweithwyr yn Ofcom yn | Adroddiad Ch2 2020/21 |

| | |
|---|---|
| gyffredinol ac mewn meysydd fel recriwtio, perfformio a hyrwyddo. Byddwn hefyd yn cadarnhau targedau amrywiaeth 5 mlynedd newydd ar gyfer Ofcom, oherwydd bydd y targedau presennol a gafodd eu gosod yn 2015 yn dod i ben ddiwedd 2020. | |
| **Cyflog Cyfartal a Chyflog o ran y Rhywiau ac Ethnigrwydd.** Mae arnom eisiau hyrwyddo diwylliant lle bydd ein holl gydweithwyr, beth bynnag fo eu rhyw neu eu cefndir, yn cael eu gwerthfawrogi yn ôl eu rhinweddau a'u doniau, ac yn cael eu trin yn gyfartal. Mae cyhoeddi ein data am dâl yn rhan bwysig er mwyn deall ble mae angen i ni wella. Bydd yr adroddiad yn egluro ein data ar gyflog o ran y rhywiau ac ethnigrwydd ar gyfer y cyfnod 2020/21. | Adroddiad<br>Ch4 2020/21 |
| **Monitro amrywiaeth a chyfle cyfartal yn y maes darlledu.** Byddwn yn parhau i adrodd ar amrywiaeth yn niwydiannau teledu a radio'r DU er mwyn darparu darlun cynhwysfawr o berfformiad darlledwyr unigol – a'r diwydiant drwyddo draw – yng nghyswllt hybu cyfle cyfartal, amrywiaeth a chynhwysiant yn eu sefydliadau. | Adroddiad blynyddol<br>Ch2 2020/21 |
| **Cod Hygyrchedd Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alw (ODPS).** Ar ôl cyflwyno gofynion newydd mewn perthynas â hygyrchedd gwasanaethau rhaglenni ar-alw, byddwn yn cyhoeddi ein Cod hygyrchedd ar gyfer gwasanaethau rhaglenni ar-alw. | Yn ei ddisgwyl<br>Ch2 2020/21 |

## Cefnogaeth a chymorth drwy Brexit a chysylltiadau rhyngwladol parhaus

| Manylion y Prosiect | Cerrig Milltir |
|---|---|
| **Gweithredu deddfwriaeth Ewropeaidd berthnasol.** Pan fo'n briodol ac yn angenrheidiol, byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i gefnogi trosi deddfwriaeth Ewropeaidd berthnasol i gyfraith genedlaethol. Drwy wneud hyn, byddwn yn gweithio i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn gymesur ac yn briodol, ei bod yn adlewyrchu'r heriau sy'n wynebu'r sector ac yn diwallu anghenion defnyddwyr a dinasyddion nawr ac yn y dyfodol. | Parhaus |

| | |
|---|---|
| **Goblygiadau strategol y newid yn natur ein perthynas â'r UE.** Nid oes gan Ofcom farn ar Brexit. Byddwn yn darparu cyngor i'r Llywodraeth yn ôl y gofyn i gefnogi'r trafodaethau gyda'r UE ar fanylion ein perthynas yn y dyfodol. Pan fo’n berthnasol, byddwn hefyd yn darparu cyngor ar unrhyw newidiadau deddfwriaethol sydd eu hangen i ategu’r berthynas rhwng y DU a’r UE yn y dyfodol. Wrth i’r broses esblygu, byddwn yn parhau i ymgysylltu â'n rhanddeiliaid i ddeall eu sefyllfa a’u blaenoriaethau. | Parhaus |

# A3. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut mae ymateb [diweddariad ar gyfer 2020/21]

A3.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd wedi'u codi yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 25 Chwefror 2020.

A3.2 Gallwch lwytho ffurflen ymateb i lawr o https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/annual-plan-2019-20. Gallwch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A3.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata arall i'w gefnogi, a fyddech chi cystal â'i anfon dros e-bost i CynllunGwaith2020@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno (https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/consultation-response-coversheet). At ddibenion yr ymgynghoriad hwn yn unig y mae'r cyfeiriad e-bost hwn, ac ni fydd yn gweithio ar ôl Ebrill 2020.

A3.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, a theitl yr ymgynghoriad wedi'i farcio arnynt:
Plan of Work Team, Strategy and Policy Team
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
London SE1 9HA

A3.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

- Anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai'r recordiad bara am fwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau QuickTime, wmv neu DVD. Neu
- Gwnewch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb, a'i lwytho yn syth i YouTube (neu safle lletya arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A3.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol).

A3.7 Nid oes angen copi papur o'ch ymateb arnom yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod derbyn ymatebion os cânt eu cyflwyno drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein ar y we ond nid fel arall.

A3.8 Byddai o gymorth pe bai eich ymateb yn cynnwys cyfeiriad at yr adran a'r paragraff y mae'n cyfeirio atynt. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai modd i chi egluro pam eich bod yn arddel eich safbwyntiau, a beth rydych chi'n ei gredu fyddai effaith cynigion Ofcom.

A3.9 Os hoffech chi drafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost i CynllunGwaith2020@ofcom.org.uk.

## Cyfrinachedd

A3.10 Mae ymgyngoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori gau. Yn benodol, gall hyn fod o gymorth i bobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu heb fod yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan, www.ofcom.org.uk, cyn gynted ag y byddant yn dod i law.

A3.11 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid inni olygu'ch ymateb.

A3.12 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifrif ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A3.13 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom i'w defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/website/terms-of-use.

## Y camau nesaf

A3.14 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad fis Mawrth 2020.

A3.15 Gallwch chi gofrestru i gael diweddariadau post i roi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom; i gael rhagor o fanylion edrychwch ar https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/latest/email-updates

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A3.16 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 4.

A3.17 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y modd rydym yn rheoli ein hymgyngoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut y gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth ofyn am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A3.18 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn gyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

Ysgrifennydd y Gorfforaeth
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
London SE1 9HA
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

# A4. Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori

## Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

### Cyn yr ymgynghoriad

A4.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol â phobl a chyrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

### Yn ystod yr ymgynghoriad

A4.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym yn ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A4.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda chrynodeb o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni. Os yw'r ymgynghoriad yn gymhleth, efallai y byddwn yn darparu canllaw Cymraeg Clir / Plain English i helpu sefydliadau llai neu unigolion na fyddent yn gallu rhoi o'u hamser i rannu eu barn fel arall.

A4.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.

A4.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd efallai â diddordeb yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif unigolyn y dylid cysylltu ag ef os oes gennych farn am y modd rydym yn cynnal ein hymgyngoriadau.

A4.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

### Ar ôl yr ymgynghoriad

A4.7 Rydym yn credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan cyn gynted ag y byddant yn dod i law. Ar ôl yr ymgynghoriad byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau'r ymatebwyr wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hyn.

# A5. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

## MANYLION SYLFAENOL

Teitl yr ymgynghoriad: Cynllun Gwaith 2020/21

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na chafwyd y ddogfen ymgynghori drwy e-bost):

## CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych yn credu ei bod yn gyfrinachol, gan roi'ch rhesymau am hynny

Dim ☐

Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐

Ymateb cyfan ☐

Sefydliad ☐

Rhan o'r ymateb ☐

Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau? ______________________________________________

______________________________________________________________________________

Os ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu'ch sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, a gaiff Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

## DATGANIAD

Rwyf yn cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth roi'r ymateb hwn, rwy'n deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni dyletswyddau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon fy ymateb drwy neges e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn ceisio cyhoeddi ymatebion wrth iddynt ddod i law. Os nad yw eich ymateb yn gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bod yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os darperir copi papur)